

BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales





Deall Rhwystrau Achredu yn y Sector Bwyd a Diod yng Nghymru

DEC DAU: Canfyddiadau'r Adroddiad

Adroddiad gan y Ganolfan Diwydiant Bwyd Zero2Five ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer yr Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru fel rhan o Eitem 9: Rhaglenni i Gefnogi'r Sector Bwyd a Diod.

Rheolwr Prosiect:

Susie Abson

Tîm y Prosiect:

Leanne Ellis, Ellen Evans, Jessica Lacey a Helen Taylor

Adroddiad wedi'i Baratoi Gan:

Dr Ellen W. Evans

Cyfranwyr:

Jackie Evans, Anne-Marie Flynn, Ffion Hewson, Janet Holmes, David Lloyd, Jamie Old, Katie Pressdee, Bethan Rowlands a Ginnie Winter.

1. Cyflwyniad

1.1 Yr angen am gynlluniau diogelwch bwyd

Mae Cynlluniau Diogelwch Bwyd (FSSs) yn hanfodol i'r diwydiant bwyd a diod. Mae FSSs yn darparu'r fframwaith ar gyfer cydymffurfio o fewn y diwydiant i gynorthwyo wrth gynhyrchu bwyd diogel a chyfreithiol. Gwahaniaethir FSSs drwy gael eu meini prawf eu hunain ar gyfer diogelwch, ansawdd a rheolaeth weithredol bwyd. Mae FSSs yn anelu at gyflawni cydymffurfiaid cyfreithiol a chynnal brand a diogelu defnyddwyr fel ei gilydd.

Mae'r FSSs arweiniol yn anelu at ddiffinio'r safonau y dylai Busnesau Gweithgynhyrchu a Phrosesu Bwyd a Diod (FDMPBs) eu bodloni. Dros amser, bwriad y cynlluniau hyn yw codi safonau i wella perfformiad cyffredinol y diwydiant bwyd a diod gyfan.

Mae globaleiddio cyflenwi bwyd yn golygu bod cydymffurfio â'r FSS a weithredir yn breifat yn aml yn rhagofyniad i gyflenwi. Cynhyrchir y cynlluniau hyn gan randdeiliaid fel Consortïwm Manwerthu Prydain (BRC) (Manning & Baines, 2004).

Sylwyd ar duedd yn ystod y 15 mlynedd diwethaf sy'n awgrymu bod nifer o FDMPBs yn y DU, wedi symud i ffwrdd oddi wrth ardystio ISO generig tuag at safonau achredu 3^{ydd} Parti pwrpasol. Dywedir bod cynlluniau achredu 3^{ydd} Parti amgen wedi'u datblygu mewn ymateb i'r angen am safonau o'r fath i gyd-fynd yn agos â gofynion y diwydiant a'r angen i resymoli cynlluniau cydymffurfio manwerthwr-benodol (Grigg & McAlinden, 2001).

Un o'r gyrrwyr marchnad allweddol yn y lefel treiddiad FSSs yw angen y manwerthwr i fodloni eu gofynion diwydrwydd dyladwy. Mae yna hefyd fantais busnes ychwanegol o leihau cost cyfranogiad y manwerthwr ei hun yn arolygiad eu cyflenwyr uniongyrchol a chyflenwyr blaenorol yn y gadwyn cyflenwi bwyd (Manning & Baines, 2004).

Yn wir, mae Manning (2007) yn amlinellu mai'r tri gyrrwr rhanddeiliaid allweddol yw deddfwriaeth, datblygu Systemau Rheoli Diogelwch Bwyd preifat (FSMS) ac amddiffyn brand y cynnyrch. Ar ben hynny, trafodir y dylai FSMS effeithiol fod yn ganolog i strategaeth sefydliadol.

Mae Swoffer (2005) yn disgrifio 'chwyldro manwerthu' yn y DU, lle mai manwerthwyr y DU yw'r prif ffactorau datblygiad FSMS yn Ewrop. Maent wedi bod yn ymwneud yn rhagweithiol â datblygu FSMS, megis Cynlluniau Gwarant Fferm, GlobalGAP a'r Safon Fydeang BRC ar gyfer Diogelwch Bwyd. Dywedir fod y Safonau hyn wedi dod yn gyffredin o ran defnydd ac wedi'u defnyddio fel fframwaith ar gyfer Safonau eraill (Swoffer, 2005).

Mae yna nifer o ffactorau allweddol sydd wedi arwain at y cynnydd yn nifer ac esblygiad safonau FSS preifat. Mae ffactorau allweddol yn cynnwys diwygiadau parhaus mewn FSSs (fel ymateb i'r risgiau gwirioneddol ac/neu ganfyddedig, a'r angen i gynnwys gofynion mwy llym), mwy o bwyslais ar reolaeth y prosesau drwy'r hyn y deir â bwyd i'r farchnad a mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb FDMPBs sector preifat o ran sicrhau diogelwch bwyd i ddefnyddwyr.

Argymhellodd yr Adolygiad Elliott i mewn i uniondeb a sicrwydd rhwydweithiau cyflenwi bwyd yn y DU bod rhaid i werth cyfundrefnau archwilio a sicrwydd gael eu cydnabod wrth nodi risg trosedd bwyd mewn cadwyni cyflenwi (Elliott, 2014).

Mae globaleiddio cyflenwad bwyd a'r duedd gynyddol tuag at breifateiddio llywodraethu marchnad i gyd yn ffactorau allweddol yn y cynnydd mewn FSSs preifat (Henson & Humphrey, 2009). Mae Holleran *et al.* (1999) yn gwahanu'r FSMS i dri grŵp; y rhain yw:

- Safonau Rhyngwladol (ISO 9000);
- Safonau sicrwydd cenedlaethol (marciau llinell, cynnyrch sicr), a

- Systemau sicrhau ansawdd perchnogol (a ddiffinnir gan fanwerthwyr a rhanddeiliaid, megis y Safonau Byd-eang BRC).

Awgrymir bod angen datblygu set gyson o fesurau dibynadwy a dilys i archwilio rhwystrau canfyddedig a manteision gweithredu FSMS ardystiedig 3^{ydd} Parti (Qijun & Batt, 2016). Mae ymchwil yn awgrymu nad yw FDMPBs gyda gwybodaeth gyfyngedig o'r broses o ardystio FSMS yn ymwybodol i raddau helaeth o'r costau uchel a'r gwaith papur sy'n ofynnol i gael ardystiad (Qijun & Batt, 2016).

Pennodd ymchwil a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau mai'r rhesymau mwyaf cyffredin dros gydymffurfio oedd i gwrdd â gofynion cwsmeriaid. Gwellu diogelwch bwyd ac aros yn gystadleuol oedd rhesymau eraill a roddwyd dros gydymffurfio (Crandall *et al.*, 2012). Fodd bynnag, o gofio bod data o'r fath ar FDMPBs y DU ac yn enwedig y rhai yng Nghymru yn gyfyngedig, mae angen ymchwil gyda FDMPBs o Gymru i nodi'r gyrwyr, rhwystrau a manteision cydymffurfiaeth â'r FSS.

1.2 Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020

Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 (Llywodraeth Cymru, 2014) yn dangos ymrwymiad clir i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r FSSs cydnabyddedig o fewn busnesau bwyd, diod a phorthiant yng Nghymru. Mae prinder data yn y DU sy'n manylu ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â chael cydymffurfiaeth â'r FSSs, ac am y rheswm hwn, mae angen cael dealltwriaeth fanwl o'r rhwystrau sy'n bodoli i FDMPBs yng Nghymru i sicrhau a chynnal FSSs. Gall data o'r fath lywio'r gwaith o ddatblygu mecanweithiau cymorth i alluogi mwy o achredu a chyflymu twf y sector bwyd yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru (Evans *et al.*, 2016).

2. Nodau ac Amcanion yr Ymchwil

2.1 Nodau'r Ymchwil

Nodau'r prosiect ymchwil hwn yw:

- Asesu pa fwyd a diod FSSs sydd ar gael ar gyfer FDMPBs yng Nghymru
- Rhoi manylion am amrywiaeth y cynlluniau hyn a'u hygrededd
- Cael dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol gan y farchnad a sut mae'r sector yn datblygu dyfodol FSSs
- Darparu diweddariad ar y nifer sy'n manteisio ar FSSs (gan gynnwys Safonau Byd-eang BRC a Safon SALSA)
- Adnabod a deall rhwystrau cyflawni achrediadau gan FDMPBs yng Nghymru (megis Safon Fyd-eang BRC/Safon SALSA neu debyg). Deall gofynion y cynllun i gyflenwi'r manwerthwyr, y sector cyhoeddus a marchnadoedd eraill
- Dod i ddeall sut i gefnogi FDMPBs yng Nghymru i ennill achrediad/ardystiad 3^{ydd} parti i alluogi mynediad i gyfleoedd newydd yn y farchnad a sicrhau twf yn unol â thargedau'r Cynlluniau Gweithredu Bwyd a Diod

2.2 Amcanion yr ymchwil

- Cynnal adolygiad desg o'r FSSs sydd ar gael ac i werthuso pa mor gadarn, uchel eu parch, credadwy ac ymarferol yw pob FSS
- Cynnal grwpiau ffocws gydag FDMPBs a rhanddeiliaid i benderfynu ar y rhwystrau sy'n atal FDMPBs yng Nghymru rhag ennill cydymffurfiaeth FSSs
- Defnyddio dulliau ymchwil meintiol i lywio datblygiad argymhellion mecanwaith cefnogi; a

- Chyflwyno argymhellion i gefnogi a galluogi FDMPBs yng Nghymru i oresgyn y rhwystrau i gydymffurfio â'r FSS

3. Gwerthuso'r FSSs sydd ar gael

Adnabu panel o dechnolegwyr gwyddor bwyd cymwysedig (FST) ($n=7$) nodweddion penodol i asesu ymarferoldeb cynllun, hygrededd, parchusrwydd a chadernid. Nododd yr ymchwil 30 FSSs a oedd yn gweithredu yn y DU (yn enwedig yng Nghymru) ar hyn o bryd, a oedd yn cynnwys:

1. Safon Fyd-eang BRC ar gyfer Diogelwch Bwyd
2. Safon Fyd-eang BRC ar gyfer Diogelwch Bwyd (Safon Marchnadoedd Byd-eang),
3. Safon Fyd-eang BRC ar gyfer Pecynnu a Deunyddiau Pecynnu
4. Safon Fyd-eang BRC ar gyfer Storio a Dosbarthu
5. Safon Fyd-eang BRC ar gyfer Asiantau a Broceriaid
6. Safon SALSA
7. Cod Ymarfer y Sector Cyhoeddus STS
8. Cod Lion (BEIC)
9. Safon Organig
10. Safon Red Tractor
11. Safon Manwerthu Marks & Spencer
12. Safon Manwerthu Waitrose
13. Safon Manwerthu Tesco
14. Safon Manwerthu Tesco Nurture
15. Safon Manwerthu ASDA
16. Safon Manwerthu Sainsbury's
17. Safon Manwerthu Lidl
18. Safon Manwerthu Aldi
19. Cynllun Sgorio Hyllendid Bwyd (CSHB)
20. Archwiliad Cyflenwyr Awdurdod Lleol
21. Cynllun Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI)
22. Safon Archwilio heb Gluten (Coeliac UK)
23. Safon Masnach Deg
24. Cymdeithas Gwerthu Awtomatig (AVA)
25. Ardystio KOSHER
26. Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Safon Safoni (ISO) 9001
27. Safon Ardystio System Diogelwch Bwyd (FSSC) 22000
28. Safonau Bwyd Rhyngwladol (IFS)
29. Y Ford Gron ar Safon Olew Palmwydd Cynaliadwy (RSPO); a'r
30. Cod Ansawdd Bwyd mwy Diogel (SQF)

Ar ben hynny, nododd y panel FST bedwar FSSs mwyaf perthnasol i FDMPBs yng Nghymru wrth iddynt alluogi mynediad i farchnadoedd gwahanol gan gynnwys manwerthu, y sector cyfanwerthu a chyhoeddus, a chynnwys FSS sy'n orfodol yng Nghymru. Cyflwynir y canfyddiadau sy'n ymwneud â'r pedwar cynllun hwn mewn tablau ym mhob adran ac maent yn cynnwys:


1. Safon Fyd-eang BRC ar gyfer Diogelwch Bwyd (Worldwide FSS)
2. Safon SALSA (FSS DU yn unig)
3. Cynllun Sgorio Hyllendid Bwyd (CSHB) (Gorfodol ar gyfer safleoedd bwyd a diod yng Nghymru ers 2013. Ar hyn o bryd yn wirfoddol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, mae'r Cynllun Gwybodaeth am Hyllendid Bwyd (FHIS) yn gymwys. Mae'r CSHB yn ymestyn i bob sefydliad sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr (tai bwyta, caffis, siopau tecawê, siopau brechdanau a manwerthwyr)); a

4. Chod Ymarfer y Sector Cyhoeddus STS (Gofynion diogelwch bwyd gorfodol ar gyfer proseswyr a chyflenwyr i'r sector cyhoeddus)

3.1 FSSs sydd ar gael i FDMPBs

Mae argaeledd gwahanol FSSs ar draws Cymru yn enfawr, gyda chynlluniau perthnasol yn cael eu cynnig drwy gydol y gadwyn fwyd. Ers 1990, a gydnabyddir fel cyfnod proffil uchel argyfwng bwyd rhyngwladol, nododd yr adolygiad lansiad o 17 FSSs newydd o leiaf yn y farchnad ers y 1990au.

Mae'r rhan fwyaf o'r FSSs sydd ar gael (93%) yn cael eu targedu'n benodol at broseswyr a chynhyrchwyr bwyd a diod. Mae argaeledd FSSs o fewn y gadwyn gyflenwi sy'n weddill yn parhau i fod yn fwy cyfyngedig. Mae Ffigwr 1 yn dangos cyfanswm nifer yr FSSs yn yr astudiaeth ar gyfer pob targed math FDMPB. Dylid nodi, mae rhai FSSs yn cael eu targedu i fwy nag un rhan o'r sector bwyd a diod.



Ffigwr 1 Canran yr FSSs a gynhwysir yn yr adolygiad yn seiliedig ar y sector

Nododd yr ymchwili fod y BRC, yn 2014, wedi lansio'r FSS newydd yn benodol ar gyfer asiantau a broceriaid. Roedd hyn yn unol â chanfyddiadau Adolygiad Elliott yn dilyn digwyddiad twyll bwyd yn 2013.

Mae'r Safon Fyd-eang ar gyfer Asiantau a Broceriaid yn darparu ardystio ar gyfer FDMPBs sy'n darparu gwasanaethau prynu, mewnfario neu ddosbarthu cynnyrch yn y gadwyn cyflenwi bwyd a deunydd pacio (BRC, 2014). Mae pwysigrwydd asiantau a broceriaid yn y gadwyn fwyd yn aml yn cael ei ddiystyru. Mae asiantau a broceriaid yn gyswllt allweddol yn y symudiad a masnach cynhyrchion, ac maent yn dylanwadu ar ddiogelwch cynnyrch a safonau ansawdd cyflenwyr, yn ogystal â bod yn gyfrifol am gynnal cadwyn effeithiol o olrhain (BRC, 2014).

Mae asiantau a broceriaid yn unigryw yn yr ystyr nad ydynt yn gweithgynhyrchu, storio neu ddosbarthu cynhyrchion eu hunain, ond yn hwyluso hyn trwy ddefnyddio trydydd parti. Mae gan y defnyddiwr terfynol, felly, wybodaeth gyfyngedig o symudiad y nwyddau y maent yn eu prynu, olrhain drwy'r gadwyn neu hyd yn oed y ffynhonnell wreiddiol.

Mae lansiad y Safon BRC i Asiantau a Broceriaid yn nodi'r cyntaf o'i fath ac yn tynnu sylw at yr angen cynyddol i gael system rheoli cadwyn gyflenwi effeithiol a thryloyw sy'n sicrhau diogelwch bwyd byd-eang.

3.2 Ymarferoldeb FSS

Mae'r nodweddion a ystyrir o dan yr adran hon yn ymwneud â'r ystyriaethau ymarferol o FDMPBs wrth ddewis FSS (gan gynnwys dull cyflwyno, ffioedd cynllun a gwasanaethau ychwanegol a gynigir i aelodau). Mae Tabl 1 yn dangos y canfyddiadau ynghylch ymarferoldeb FSS.

3.2.1 Cyfyngiadau Aelodaeth FSS

Nid yw'r FSSs yn gyffredinol yn cyfyngu aelodaeth yn seiliedig ar faint y cwmni. Yr unig eithriad i'r rheol hon yw Safon SALSA, y mae eu cynllun wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer busnesau bach (<50 o weithwyr amser llawn) a busnesau micro (<10 o weithwyr amser llawn).

3.2.2 Darparu'r Cynllun FSS

Mae gwahaniaethau amlwg yn y dull cyflenwi ar draws yr FSSs. Tra rheolir a gweithredir 30% o'r FSSs gan y perchennog cynllun, caiff gweithrediad y cynlluniau sy'n weddill ei wneud gan gorff annibynnol, yn nodweddiadol corff ardystio (CB) h.y. darparwr gwasanaeth.

Yn gyffredinol, mae'r CB yn gweithredu'r FSS yn unol â'r ISO/IEC 17065 (ISO, 2012). Mae'r ISO/IEC 17065 yn ei gwneud yn ofynnol i systemau fod ar waith i fynd i'r afael â materion o atal gwrthdaro buddiannau, rheoli gwybodaeth cwsmeriaid, personél cymwys, priodol, graddnodi archwilydd, a llawer o agweddau eraill sy'n ymwneud â'r ardystiad i sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws pob CBs sy'n gweithredu'r cynllun (GFSI a'r Fforwm Nwyddau Defnyddwyr, 2011)

Gweithredir y fwyaf o'r FSSs gan fwy nag un darparwr gwasanaeth (gan gynnwys CBs, manwerthwyr neu berchennog y cynllun eu hunain), gan ganiatáu i FDMPs ddewis eu corff annibynnol eu hunain. Mae'r FSSs sy'n gweithredu yn y modd hwn yn cynnwys Safonau Byd-eang BRC ar gyfer Diogelwch Bwyd, ISO 9001, FSSC 22000, Cod Lion ac IFS.

Bydd enw da CB yn ffactor allweddol yn y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer FDMPBs o Gymru. Nododd y panel ymchwil bod ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i'r cymwysterau a phroffil y CB. Hyd yn oed ymhlith y CBs achrededig, caiff rhai eu cydnabod yn unig o fewn y wlad y maent yn rhoi ardystiadau, yn hytrach na chael cydnabyddiaeth fyd-eang. Ar ben hynny, mae rhai manwerthwyr a chynhyrchwyr bwyd a diod mawr yn ffafrio rhai CBs dros eraill, felly mae'n bwysig deall eich gofynion cwsmeriaid yn llawn cyn dewis CB.

Darperir FSSs (yn benodol, yr arolygiadau) naill ai mewn arddull ymgynghorol neu heb fod yn ymgynghorol. Lle bo'r FSSs yn cael eu gweithredu yn unol ag ISO/IEC 17065, rhaid i'r arolygydd aros yn ddiduedd ac ni fydd yn cynnig unrhyw gyngor neu arweiniad ar y cynllun (GFSI a'r Fforwm Nwyddau Defnyddwyr, 2011) busnesau bwyd. Mae enghreifftiau o'r FSSs heb fod yn ymgynghorol yn cynnwys Safonau Byd-eang BRC ac ISO 9001. Mae'r FSSs sy'n cynnig dull arddull ymgynghorol yn cynnwys y Safon SALSA a'r CSHB.

3.2.3 Ffioedd FSS

Nododd yr astudiaeth nifer o gostau sy'n gysylltiedig â'r FSSs gan gynnwys; cofrestru cynllun, aelodaeth flynyddol, gwasanaethau yn seiliedig ar danysgrifiad, ymweliadau arolygu a gwirio. Mae tryloywder mewn costau yn amrywio'n sylweddol rhwng FSSs. Nododd yr astudiaeth fod 23% o'r FSSs yn darparu manylion am ffioedd cynllun cysylltiedig ar eu gwefan. Mae'r FSSs sy'n darparu'r wybodaeth hon ar gyfer ei aelodau yn cynnwys y Safon SALSA, Cod Lion, CSHB, Safon Archwilio heb Glwten, RSPO ac SQF.

Nododd yr adolygiad mai'r CSHB yw'r unig FSS i ddarparu'r arolygiad FDMPBs yn ddi-dâl. Dylid nodi bod yr FHRS yn gynllun gorfodol ar gyfer yr holl safleoedd bwyd a diod yng

Nghymru, sy'n cael ei weithredu gan yr awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Mae ffioedd arolygu yn amrywio rhwng £500 (Safon SALSA) i £4000 (Archwiliad heb Glwten, (Coeliac UK, 2015)). Mae'r ystod yn seiliedig ar FSSs sy'n cyhoeddi ffioedd arolygu. Gall yr ystod fod wedi'i hystumio oherwydd y nifer uchel o'r FSSs nad ydynt yn cyhoeddi'r wybodaeth hon. Mae ffioedd yn nodweddiadol yn seiliedig ar hyd arolygiad/archwiliad a gyfrifir gan ddefnyddio graddfa symudol, gydag ystyriaeth yn cael ei rhoi i ffactorau megis gwerthiant cynnyrch, nifer y gweithwyr a maint y safle. Defnyddir offer megis cyfrifiannell hyd archwiliad i ddarparu dull mwy tryloyw a chyson i sefydlu cyfnod archwilio (BRC, 2010).

Amlygodd yr adolygiad nad yw'r FSSs sy'n gweithredu'n breifat yn datgelu costau archwilio neu ffioedd aelodaeth. Mae amrywiaeth y mathau o fusnes o fewn y diwydiant bwyd a diod yn ei gwneud yn fwy priodol ar gyfer gweithredwyr cynllun i ddarparu ffioedd 'safle penodol' yn seiliedig ar feini prawf busnes (gan gynnwys safle, nifer y gweithwyr, nifer y cynlluniau HACCP ac ati).

3.2.4 Gwasanaethau FSS Ychwanegol

Mae nifer cynyddol o'r FSSs yn cynnig mecanweithiau cymorth ychwanegol i'w haelodau. Mae'r mecanweithiau'n cynnwys gwasanaethau'n seiliedig ar danysgrifio (mynediad i gyhoeddiadau cefnogi ar-lein, gweminarau, cyhoeddiadau allweddol, llyfrau troi, astudiaethau achos, papurau gwyn, ac adroddiadau yn y llyfrgell adnoddau), cyn-archwiliadau, cyrsiau hyfforddi, gweithdai a mentora.

3.2.5 Cronfa ddata'r FSS

Mae un rhan o dair o'r FSSs yn yr astudiaeth yn cynnig cyfeiriadur chwiliadwy neu gronfa ddata o aelodau cymeradwy. Mae cyfeiriadur chwiliadwy yn caniatáu gwell cyfleoedd marchnata ar gyfer aelodau ac, yn achos rhai cynlluniau, yn caniatáu i FMPBs rannu adroddiadau a thystysgrifau arolygu yn syth ac yn ddiogel gyda chwsmeriaid. Mae cyfeiriadur chwiliadwy hefyd yn offeryn delfrydol ar gyfer gwirio dilysrwydd safle gweithgynhyrchu ardystiedig. Mae'r FSSs o fewn yr ymchwil desg sy'n darparu cyfeiriadur chwiliadwy yn cynnwys Bwyd BRC, Safon SALSA, CSHB, AVA, IFS a Safon FSSC 22000.

Tabl 1 Crynodeb o'r canfyddiadau ar gyfer ymarferoldeb FSS

	Bwyd BRC	FHRS	Safon SALSA	Cod Ymarfer y Sector Cyhoeddus STS
Cyfyngiadau Aelodaeth	Dim cyfyngiadau ar faint y busnes	Dim cyfyngiadau ar faint y busnes	Cynlluniwyd ar gyfer busnesau bach a chanolig gyda 1-50 o weithwyr amser llawn	Dim cyfyngiadau ar faint y busnes
Cyflwyno'r Cynllun	Yn eiddo i'r BRC. Gweithredir gan CBs achrededig	Yn eiddo i ac a weithredir gan ALI, gydag ASB	Yn eiddo i IFST. Gweithredir gan SALSA	Yn eiddo i ac a weithredir gan STS
Costau Aelodaeth	Costau aelodaeth heb eu datgelu	£0*	Costau aelodaeth yn amrywio rhwng £500-£920	Costau aelodaeth heb eu datgelu
Gwasanaethau ychwanegol a gynigir i aelodau	- Cyn-archwiliadau - Hyfforddiant - Gweithdai - Seminarau	Deunyddiau templed ASB	- Cyn-archwiliadau - Hyfforddiant - Cyngor - Mentora - Gweithdai	- Hyfforddiant - Porth Cydymffurfio Diogelwch Bwyd
Cronfa ddata	Oes	Oes	Oes	Oes

cynllun ar gael

* Gosodir ffi os yw'r FDMPBs yn gofyn am ail-archwiliad.

3.3 Hygrededd a Pharchusrwydd FSS

Mae'r nodweddion a ystyrir o fewn yr adran hon yn cyfeirio at hygrededd a pharchusrwydd FSS gan gynnwys meincnodi, achrediad ISO. Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau ar gyfer hygrededd a pharchusrwydd y cynllun.

3.3.1 Meincnodi FSS yn erbyn y Fenter Diogelwch Bwyd yn Fyd-eang (GFSI)

Mae GFSI yn fenter sy'n gysylltiedig fel arfer â hygrededd cynllun. Mae'r GFSI yn fenter sy'n cael ei gyrru gan ddiwydiant i feincnodi'r FSSs. Caiff ei hwyluso gan Fforwm Nwyddau Defnyddwyr. Mae'r GFSI FSS cydnabyddedig yn dangos bod y cynllun yn bodloni'r lleiafswm gofynion diogelwch bwyd a gydnabyddir yn rhyngwladol (GFSI, 2014). Mae'r fenter yn cael ei gyrru gan ddiwydiant, sy'n cael ei chyflawni trwy gydweithio rhwng arbenigwyr diogelwch bwyd mwyaf blaenllaw'r byd o fanwerthu, gweithgynhyrchu a chwmnïau gwasanaethau bwyd, yn ogystal â sefydliadau rhyngwladol, llywodraethau, y byd academiaidd a darparwyr gwasanaeth i'r diwydiant bwyd byd-eang.


Nid yw'r GFSI yn darparu polisi ar gyfer manwerthwyr, gweithgynhyrchwyr neu berchnogion cynllun diogelwch bwyd, yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau achrediad neu ardystiad, yn berchen ar unrhyw gynlluniau/safonau diogelwch bwyd neu ymgymryd â hyfforddiant. Mae cydnabyddiaeth gan GFSI yn cynnwys y manteision canlynol (GFSI, 2016):

- Gwiriad annibynnol o'r cynllun;
- Mae cydnabyddiaeth gan y Bwrdd GFSI yn darparu'r hygrededd bod yr FSS yn cael ei gefnogi gan y diwydiannau cwmnïau prynu bwyd mwyaf; ac
- Mae adolygiad systematig o'r Ddogfen Canllawiau GFSI gan randdeiliaid byd-eang yn golygu ei fod yn parhau'n berthnasol i anghenion y diwydiant, ac yn hyrwyddo gwelliannau parhaus yn y FSSs a feincnodwyd.

Meicnodwyd dau ddeg pedwar y cant o'r FSSs yn yr astudiaeth yn erbyn GFSI. Mae cynlluniau GFSI cydnabyddedig yn cynnwys Safon Fyd-eang BRC ar gyfer Diogelwch Bwyd, Cod Ymarfer y Sector Cyhoeddus STS, IFS, FSSC ac SQF.


3.3.2 FSS Achrededig i ISO/IEC 17065 (Canllaw 65)

Nododd yr adolygiad ddau fath o'r FSSs, achrededig ac anachrededig. Mae'r term achrededig yn golygu bod cydnabyddiaeth ffurfiol wedi ei ddarparu gan gorff awdurdodol, fel arfer gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) ar gyfer gweithrediad yr FSS. Mae FSSs achrededig yn bodloni gofynion technegol ISO/IEC 17065 (Canllaw 65) (ISO, 2012). Dangosir y broses ar gyfer achredu CBs yn Ffigwr 2.



Ffigwr 2 Y Broses ar gyfer Achredu Cyrff Ardystio (BRC, 2015a).

Dylanwadir ar y dewis o'r FSS gan FDMPB gan nifer o ffactorau a ddangosir drwy gydol yr ymchwil. Mae dethol cynllun a gweithredu effeithiol, yn hanfodol i ddatblygiad FDMPB i sicrhau mynediad i gyfleoedd a thwf marchnad newydd. Dangosir y llwybr dewis posibl a'r berthynas gyda GFSI, perchennog cynllun, darparwr gwasanaeth a'r archwilydd yn Ffigwr 3.



Ffigwr 3 Llwybr Cynllun Diogelwch Bwyd**3.3.3 FSSs y DU neu Fyd-eang**

Nododd yr astudiaeth fod 47% o'r FSSs yn gweithredu'r cynllun yn fyd-eang, mae'r rhain yn cynnwys y Safonau Byd-eang BRC (ar gyfer Bwyd, Marchnadoedd Byd-eang, Pecynnu, Storio a Dosbarthu ac Asiantau a Broceriaid), Safon Organig, Safon Manwerthu Marks & Spencer, Safon Manwerthu Aldi, Safon PGI, FSSC 22000, ISO 9001, IFS, RSPO a SQF. Gall hyn fod yn nodwedd bwysig i FDMPBs o Gymru ei hystyried wrth benderfynu masnachu'n rhyngwladol.

Mae'r FSSs sy'n gyfyngedig i weithredu yn y DU yn unig yn cynnwys Safon SALSA, Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB), Cod Ymarfer y Sector Cyhoeddus STSr, Cod Lion, Cynllun Red Tractor a'r Gymdeithas Gwerthu Awtomatig (AVA).

Er nad yw rhai FSSs yn y DU yn cael y gydnabyddiaeth fyd-eang a gynigir gan y GFSI (gan gynnwys Safonau Byd-eang BRC, ISO 9001 neu FSSC 22000), mae'r FSSs cenedlaethol yn galluogi FDMPBs o Gymru i gynnal ardystiad bwyd credadwy. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dangos fod FDMPBs yn gweithgynhyrchu cynnyrch mewn modd diogel a chyfreithiol.

Mae ymchwil yn awgrymu y gall FSS cenedlaethol ar gyfer llawer o FDMPBs, ddarparu'r hyder i fynd at brynwyr cenedlaethol a rhanbarthol a dechrau deialog i fasnachu (Bradford-Knox & Kane, 2014).

3.3.4 Cymhwysedd Arolygydd (neu Archwilydd) FSS

Gweithredir y rhan fwyaf o'r FSSs (90%) yn breifat. Mae darparwyr gwasanaethau preifat yn cynnwys manwerthwyr, cynhyrchwyr bwyd, cymdeithasau masnach, cyrff ardystio (CBs) ac arbenigwyr technegol annibynnol. Mae'r CSHB a'r Archwiliad Cyflenwyr Awdurdod Lleol yn eiddo i'r sector cyhoeddus (a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ac Awdurdodau Lleol (ALLau) yn y drefn honno).

Argymhelliad: Mae angen ymchwil pellach gyda pherchnogion cynllun ynghylch cysondeb archwilydd. Mae angen rhoi esboniad manwl o'r gofynion cymhwysedd gofynnol lleiaf a osodir gan berchnogion cynllun ar gyfer arolygwyr/archwilywyr yn y parth cyhoeddus.

3.3.5 Cymhwysedd Arolygydd (neu Archwilydd) FSS


Mae llai na hanner yr FSSs o fewn yr astudiaeth (43%) yn rhoi esboniad manwl o ofynion cymhwysedd sylfaenol ar gyfer arolygwyr (gan gynnwys y gofyniad am gymwysterau a phrofiad). Mae lleiafswm gofynion cymhwysedd a nodwyd yn cynnwys profiad o weithio yn y diwydiant bwyd a diod, profiad archwilio, gwybodaeth o HACCP a hyfforddiant archwilydd arweiniol. Lle bo gofynion cymhwysedd wedi'u diffinio, mae'r gofynion a osodwyd gan y perchennog cynllun. Lle caiff FSSs ei weithredu gan ddarparwr gwasanaeth annibynnol (e.e. CB), cyfrifoldeb y CBs yw sicrhau bod lleiafswm cymhwysedd arolygydd (neu archwilywr) wedi'i gwrdd a'i gynnal.

3.3.6 Aelodaeth o'r FSS

Nododd yr adolygiad mai ychydig o'r FSSs a gynhwyswyd o fewn yr adolygiad oedd yn cyhoeddi'n ffurfiol eu Ffigwrau aelodaeth.


Bwyd BRC yw'r Safon Diogelwch Bwyd mwyaf a fabwysiadwyd fwyaf eang yn y byd. Mae'r BRC yn cadarnhau aelodaeth o dros 23,841 o safleoedd ardystiedig yn fyd-eang (mewn 132 o wledydd), gyda 18,694 tystysgrif wedi'u cyhoeddi yn erbyn y Bwyd BRC (BRC, 2015a).

Nodwyd fod y BRC wedi ardystio cyfanswm o 172 o safleoedd yng Nghymru (Tachwedd 2015). Roedd cyfanswm o 70% o'r safleoedd ardystedig yn unol â Safon Bwyd BRC. Penwyd nad oedd unrhyw FDMPBs wedi'i ardystio i'r Safon Asiantau a Broceriaid BRC, fodd bynnag, rhaid nodi mai yn 2014 yn unig y lansiwyd y Safon Asiantau a Broceriaid BRC.



Ffigwr 4 Cyfanswm nifer safleoedd ardystedig BRC yng Nghymru (n=172) (Tachwedd 2015)

Ym mis Chwefror 2016, adroddodd SALSA bod ganddo 1263 o aelodau gweithredol (934 o aelodau cymeradwy) yn y Deyrnas Unedig (Ball, 2016b). Ym mis Mai 2016, sefydlodd cyfathrebu personol gyda'r Rheolwr Cynllun SALSA bod gan SALSA 62 aelod gweithredol yng Nghymru, ar hyn o bryd mae yna 53 SALSA yng Nghymru wedi'u cymeradwyo gan yr FDMPBs, sy'n cyfateb i 7% o'r holl safleoedd ardystedig yn y DU (Gweithrediadau SALSA, 2016).



Ffigwr 5 Canran safleoedd SALSA a gymeradwywyd fesul rhanbarth y DU (n=934) (Ball, 2016a)

Mae'n amlwg o'r data bod cyfle i gynyddu nifer y safleoedd a gymeradwywyd gan SALSA yng Nghymru.

Argymhelliad: mae angen casglu data cyfredol i gymharu nifer yr FDMPBs gyda'r FSSs fel canran o'r holl FDMPBs rhanbarthol i gael golwg realistig ar y rhif gwirioneddol ar gyfer FDMPBs yng Nghymru gydag FSSs

Tabl 1 Crynodeb o'r canfyddiadau ar gyfer hygrededd a pharchusrwydd FSS

	Bwyd BRC	CSHB	Safon SALSA	Cod Ymarfer y Sector Cyhoeddus STS
Perchennog Cynllun	BRC	ASB	IFST	STS
Wedi'i achredu i ISO/IEC 17065 (Canllaw 65)	Do	Naddo	Naddo	Naddo
Wedi'i feincnodi yn erbyn y GFSI	Do	Naddo	Naddo	Naddo
Cynllun y DU yn unig neu Fyd-eang	Byd-eang	Y DU yn unig	Y DU yn unig	Y Du yn unig
Cynllun Gweithredu Preifat neu Gyhoeddus	Preifat	Cyhoeddus	Preifat	Preifat
Rhanddeiliaid	BRC, Manwerthwyr, Gwasanaeth Bwyd, Cymdeithasau Masnach Cynhyrchwyr, CBs, Arbenigwyr Annibynnol, UKAS	ASB, Awdurdod Lleol, yr holl FDMPBs yng Nghymru. Grŵp Llywio CSHB	BRC, FDC, BHA, NFU, FDMPBs micro a bach	STS, Sector Cyhoeddus
Cymhwysedd Arolygydd (neu Archwilydd)	Cymhwysedd arolygydd wedi'i ddiffinio	Cymhwysedd arolygydd wedi'i ddiffinio	Cymhwysedd arolygydd wedi'i ddiffinio	Cymhwysedd arolygydd wedi'i ddiffinio
Cyfanswm Aelodau sy'n Derbyn	18,694	440,000*	934	Heb ei ddatgelu

* Cyfanswm nifer y busnesau bwyd a diod yr adroddwyd amdanynt ar wefan ASB. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cadarnhau bod 440,000 o fusnesau wedi'u harolygu. Mae'r ffigwr hwn hefyd yn cynnwys safleoedd a arolygwyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (ASB, 2015a).

Argymhelliad: mae angen i'r ASB wahanu data ar gyfer safleoedd FDMPB o fannau arlwygo a lletygarwch i wella tryloywder gwybodaeth

3.4 Cadernid FSS

Mae'r nodweddion a ystyriwyd yn cyfeirio at gadernid FSS ac yn cynnwys diweddariadau cynllun a dull arolygu. Crynhoir canfyddiadau yn Nhabl 3.

3.4.1 Diweddariadau FSS

Mae cyfanswm o 10 FSSs (33%) o fewn yr astudiaeth wedi'u diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn y 3 blynedd diwethaf. Lansiwyd pedwar deg y cant o'r FSSs a gynhwyswyd yn yr adolygiad ers 2000. Ers 2010, lansiwyd tri FSSs newydd (gan gynnwys Diogelwch Bwyd BRC - Marchnadoedd Byd-eang, Asiantau a Broceriaid BRC a CSHB).

3.4.2 FSS Gorfodol neu Wirfoddol

Er bod aelodaeth i bron pob FSSs a gynhwyswyd yn yr adolygiad yn parhau i fod yn wirfoddol, mae un FSS sy'n parhau i fod yn orfodol ar gyfer pob safle bwyd yng Nghymru, ond yn dal yn wirfoddol ar gyfer busnesau sy'n seiliedig yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban (FHIS).

O dan Erthygl 6(2) o Reoliad 852/2004, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru eu sefydliadau (h.y. pob uned ar wahân o'u busnes bwyd) gyda'r awdurdod bwyd priodol (ASB, 2014, 2015b). Yna, arolygir busnesau bwyd Cofrestredig gan yr awdurdod lleol yn unol â gofynion y cynllun. Mae'r arolygiad CSHB yn cynnwys adolygiad o arferion hylendid bwyd ac yn gwirio cydymffurfiaeth busnes i Gyfraith Diogelwch Bwyd y DU ac Ewrop.

Mae'r CSHB wedi bod yn orfodol ar gyfer adeiladau bwyd yng Nghymru ers 2013. Fodd bynnag, mae'n wirfoddol ar hyn o bryd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, disgwylir i ymgynghoriad cyhoeddus llawn ynghylch arddangos gorfodol yn Lloegr ddigwydd yn hwyrach yn 2016 (ASB, 2016).

Er bod aelodaeth i'r rhan fwyaf o'r FSSs yn wirfoddol, mae llawer o fusnesau bwyd yn gwneud ardystio i'r FSS yn ofyniad manyleb ac yn rhagofyniad ar gyfer eu cyflenwyr (ASB, 2012).

Argymhelliad: ymchwilio i'r posibilrwydd o orgyffwrdd rhwng gofynion y CSHB a 3^{ydd} partiön eraill. FSSs i benderfynu ar y gofyniad am archwiliad CSHB ychwanegol. Gall yr ymchwil nodi'r angen i negyddu'r angen am arolygiadau CSHB mewn trydydd parti achrededig/ardystiedig FDMPBs, gan leihau'r baich ar FDMPB ar gyfer archwiliadau lluosog a chael effaith gadarnhaol ar ddryniad/llwyth gwaith amser Swyddog lechyd yr Amgylchedd.

3.4.3 Arolygiadau Cyhoeddedig neu Anghyhoeddedig FSS

Mae pob FSSs a gynhwysir yn yr adolygiad yn gofyn am arolygiad ar y safle. Mae'r rhan fwyaf o'r arolygiadau yn cael eu cwblhau ar sail cyhoeddedig, gyda dim ond chwech FSSs yn cynnig opsiwn anghyhoeddedig. Mewn rhai amgylchiadau, bydd y cwsmer (e.e. gwneuthurwr neu fanwerthwr) yn pennu eu manyleb ar gyfer arolygiad cyhoeddedig neu anghyhoeddedig. Fel enghraifft, cadarnhaodd ASDA yn 2013 i'w cyflenwyr cynnyrch brand ASDA bod yn rhaid iddynt gael arolygiadau BRC anghyhoeddedig (BRC, 2015b).

3.4.4 Hyd ac amllder Arolygiad FSS

Nododd yr astudiaeth bod hyd arolygiad ar y safle yn amrywio ar draws FSSs. Mae arolygiadau yn amrywio o ddwy awr i dri diwrnod. Hyd arolygiad ar gyfartaledd yw un diwrnod a hanner. Mae amllder archwiliadau FSS yn amrywio o chwe mis i dair blynedd. Amllder cyfartalog arolygiad FSS yn yr astudiaeth yw unwaith y flwyddyn.

Tabl 2 Crynodeb o'r canfyddiadau ar gyfer cadernid FSS

	Bwyd BRC	FHRS	Safon SALSA	Cod Ymarfer y Sector Cyhoeddus STS
Adolygu Cynllun (dyddiad diweddariad diwethaf)	Gorffennaf 2015 (Mater 7)	2014	Mehefin 2015 (Mater 4)	2007 (Mater 3)
FSS gwirfoddol neu	Gwirfoddol*	Gorfodol	Gwirfoddol*	Gorfodol i broseswyr a

orfodol ar gyfer FDMPBs				chyflenwyr i'r sector cyhoeddus yn unig
Arolygiad cyhoeddedig neu anghyhoeddedig	Cyhoeddedig ac Anghyhoeddedig	Anghyhoeddedig	Cyhoeddedig	Cyhoeddedig
Hyd arolygiad	Yn nodweddiadol 2 ddiwrnod	Hyd heb ei ddatgelu	Hanner diwrnod	Hyd heb ei ddatgelu
Amser arolygiad	6 i 12 mis	6 i 24 mis	12 mis	12 mis

* Dylid nodi bod rhai FDMPBs yn gwneud ardystiad yn ofyniad gorfodol ar gyfer cyflenwyr.

3.5 Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad

Mae canfyddiadau'r adolygiad yn dangos gwahaniaethau allweddol mewn ymarferoldeb FSS, hygyrdded, parchusrwydd, a chadernid y cynllun. Mae canfyddiadau o'r astudiaeth hon yn darparu tystiolaeth o ehangder ac amrywiaeth yr FSSs sydd ar gael i'r FDMPBs o Gymru.

3.5.1 Ymarferoldeb FSS

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod FSSs ar gael ar gyfer yr holl FDMPBs o Gymru, waeth beth fo'u maint. Ar ben hynny, mae'r ymchwil yn amlygu mai ychydig o'r FSSs sy'n rhoi gwybodaeth glir am gostau cysylltiedig FSS. Gall y canfyddiad hwn drosi i fod yn rhwystr posibl i FDMPBs o Gymru sy'n ceisio penderfynu os yw FSS yn addas, ymarferol a fforddiadwy.

Amlygodd yr astudiaeth fod nifer cynyddol o'r FSSs yn cynnig mecanweithiau cymorth ychwanegol i'w haelodau. Mae llwyddiant a thwf mecanweithiau cymorth ychwanegol yn debygol o gynhyrchu incwm ar gyfer perchnogion cynllun, caiff cyfran ohono ei ail fuddsoddi yn y cynllun gan arwain at dwf parhaus a chydabyddiaeth o'r FSS o fewn y diwydiant.

Er y gellir dadlau bod mecanweithiau cymorth ychwanegol yn ychwanegu at y gost gyffredinol o gydymffurfiaeth ar gyfer FDMPBs o Gymru, dylai manteision dulliau cymorth (gan gynnwys cyn-archwiliadau, canllawiau dehongli a hyfforddiant) ychwanegu gwerth at y busnes a chynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant yn ystod arolygiad/archwiliad.

Mae un rhan o dair o'r FSSs yn cynnig cyfeiriadur chwiliadwy. Mae cyfeiriadur chwiliadwy'n caniatáu gwell cyfleoedd marchnata ar gyfer FDMPBs o Gymru ac yn cynyddu'r cyfle i gyflenwi marchnadoedd newydd a chefnogi twf busnesau.

3.5.2 Hygyrdded a Pharchusrwydd FSS

Mae'r canfyddiadau'n dangos nad oedd mwy na hanner yr FSSs o fewn y gwaith ymchwil yn cael eu hachredu, felly nid ydynt yn gweithredu i ISO/IEC 17065. Yn yr un modd, mae llai na 25% o'r FSSs wedi cael eu meincodi yn erbyn GFSI.

Er y gall achredu a chydabyddiaeth i GFSI chwarae rôl mewn hygyrdded a pharchusrwydd FSS yn y diwydiant bwyd a diod, mae'r astudiaeth yn awgrymu bod nifer uchel o'r FSSs cydnabyddedig sy'n gweithredu'n llwyddiannus heb ISO/IEC 17065 neu statws GFSI.

Nid yw mwy na hanner (53%) o'r FSSs o fewn yr ymchwil yn gweithredu eu cynllun y tu allan i'r DU. Er y gall FSS cenedlaethol ddarparu FDMPBs o Gymru â'r hyder i fynd at brynwyr cenedlaethol a rhanbarthol, efallai y bydd y diffyg cydnabyddiaeth byd-eang i rai FSSs yn rhwystr posibl i FDMPBs o Gymru gael mynediad i gyfleoedd newydd yn y farchnad a sicrhau twf y tu allan i'r DU.

Gweithredir y rhan fwyaf o'r FSSs (90%) yn breifat. Mae'r astudiaeth hon yn amlygu bod gan y sector preifat y pŵer i ddylanwadu ar gynlluniau presennol a'r dyfodol sydd ar gael i FDMPBs o Gymru. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu bod gan y sector preifat y potensial i ddylanwadu ar gyfeiriad a thwf y dyfodol o ran achredu ac ardystio.

3.5.3 Cadernid FSS

Lansiwyd pedwar deg y cant o'r FSSs newydd ers 2000 (argraffiad cyntaf), gyda thri FSSs newydd sbon yn cael eu cyhoeddi ers 2013. Mae'r adolygiad yn cadarnhau bod FSSs yn parhau i ddiweddarau ac esblygu yn unol â newidiadau diwydiant, blaenoriaethau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Gall diweddariadau cynllun rheolaidd weithredu fel rhwystr i FDMPBs o Gymru (gallai mwy o ofynion cynllun a newidiadau yn ei dro arwain at fwy o gost gweithredu). Fodd bynnag, mae cydymffurfio â'r FSSs sy'n esblygu yn darparu'r sicrwydd a hyder i gwsmeriaid presennol a newydd bod systemau a gweithdrefnau yn eu lle o fewn y gadwyn gyflenwi i reoli risgiau bwyd sy'n dod i'r amlwg a diogelwch bwyd byd-eang.

Mae'r canfyddiadau'n amlygu'r ffaith bod yn rhaid i bob FDMPBs o Gymru gydymffurfio ag o leiaf un FSS, h.y. y CSHB ac mae aelodaeth i weddill yr FSSs yn wirfoddol. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr FDMPBs yn gwneud ardystio i'r FSS yn ofyniad amod ar gyfer eu cyflenwyr. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu bod llawer o fusnesau bwyd o fewn y gadwyn gyflenwi (a chyfleoedd marchnad newydd posibl) yn ystyried cydymffurfio â CSHB yn rhagofyniad ar gyfer cyflenwyr; fodd bynnag, efallai na fydd cydymffurfio â'r cynllun hwn yn unig yn darparu'r sylfaen gyflenwi gyda lefel y brand a'r amddiffyniad defnyddiwr sydd ei angen arno.

3.6 Argymhelliad ar gyfer ymchwil pellach

Tra bod casgliadau ar statws FSS yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd o fewn y parth cyhoeddus (fel arfer o wefan y perchennog cynllun), mae'r ymchwil desg yn amlygu nad yw peth gwybodaeth am y cynllun ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Argymhelliad: Er mwyn adeiladu ymhellach ar y canfyddiadau a nodwyd yn yr adolygiad desg o'r FSS, argymhellir ymestyn y fethodoleg ymchwil i gyfathrebu â'r holl berchnogion cynllun i ddal gwybodaeth cynllun nad yw ar gael o fewn y parthau cyhoeddus.

Mae'r amrywiad yn y swm o wybodaeth sydd ar gael ar gyfer pob FSS yn amlygu'r gwahaniaeth yn niffuantrwydd a thryloywder perchnogion cynllun. Mae'r adolygiad yn amlygu bod rhai FSSs yn darparu mwy o wybodaeth cynllun nag eraill i'w haelodau. Er enghraifft, mae rhai FSSs yn darparu i'w haelodau gopi y gellir ei lawrlwytho o gynnwys cynllun a phrotocol arolygu. Fodd bynnag, nid yw rhai FSSs (yn enwedig yr FSSs sy'n gweithredu'n breifat); yn darparu'r wybodaeth hon. Nodwyd y canfyddiad hwn yn neilltuol o fewn y safonau manwerthwr.

Roedd yr adolygiad hefyd yn dweud bod ychydig o'r FSSs yn darparu gwybodaeth glir am gostau FSS cysylltiedig. Gall y canfyddiad hwn droi i fod yn rhwystr posibl i FDMPBs yng Nghymru sy'n ceisio penderfynu os yw FSS yn addas, ymarferol a fforddiadwy.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen am gysondeb a thryloywder ymhlith perchnogion cynllun ar y swm, a'r math o wybodaeth cynllun sydd ar gael i'w rhanddeiliaid.


Argymhelliad: Dylid cytuno ar y set lleiaf o feini prawf FSS gan y diwydiant bwyd a diod, a dylai pob perchennog cynllun sicrhau bod y wybodaeth ar gael, yn seiliedig ar y meini prawf gofynnol, i'w rhanddeiliaid.

Nododd yr adolygiad fod yna nifer sylweddol o wahanol FSSs ar gyfer FDMPBs yng Nghymru i ddewis ohonynt. Er bod y panel ymchwil yn canolbwyntio ar 30 FSSs, dylid nodi bod mwy o'r FSSs ar gael.

Argymhelliad: Ehangu ar yr ymchwil a gynhaliwyd i gymharu cynnwys FSS i bennu gwahaniaethau allweddol mewn gofynion cynllun. Yn ôl ei natur, bydd yr ymchwil hwn yn nodi dyblygu mewn cynnwys FSS ac yn bwysicach byddai'n nodi gofynion y cynllun unigryw a allai alluogi busnesau i gael mynediad i gyfleoedd newydd yn y farchnad a sicrhau twf.

4. Rhwystrau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r FSSs

Caniataodd y grwpiau ffocws (yr oedd FDMPBs yng Nghymru, rhanddeiliaid, archwilwyr a mentoriaid yn rhan ohonynt) a chyfweliadau manwl (a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr manwerthu) i'r tîm ymchwil nodi gyrrwyr a manteision cael/cynnal FSSs allweddol. Crynhoir y canfyddiadau yn Ffigwr 1.



Ffigwr 6 Adnabod gyrrwyr a manteision FSSs

4.1 Gyrrwyr tuag at gydymffurfiaeth â'r FSS

Nodwyd dau ffactor allweddol fel gyrrwyr ar gyfer cael cydymffurfiaeth â'r FSSs gan gynnwys gofynion cwsmeriaid a diogelwch cynnyrch.

4.1.1 Cwsmeriaid

Nododd nifer o ymatebwyr bwysau cwsmeriaid a rhagofynion cwsmeriaid fel gyrrwyr ar gyfer cael cydymffurfiaeth â'r FSS. Nodwyd os nad oedd angen i gwsmeriaid gael cydymffurfiaeth â'r FSS, y byddai'n annhebygol y byddai llawer o FDMPBs yn gweithio tuag ato. Awgrymwyd bod cydymffurfiaeth â'r Safon SALSA wedi ei ddefnyddio'n wreiddiol fel mantais marchnata ar gyfer FDMPBs, fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf mae'r farn hon wedi newid ac mae wedi dod yn ofyniad cwsmer (gyda mwy o randdeiliaid a phrynwyr yn cydnabod y cynllun yn ffurfiol).

"Gofynion y cwsmer yw'r prif beth. Os na fyddent yn ei fynnu, a fyddem yn gwneud hyn i gyd? (Cyfranogwr 15, rheolwr technegol FDMPBs gyda'r FSS).

"Rwy'n credu mai'r un mwyaf yw mai'r cwsmeriaid sy'n ei yrru, nid y cyfleuster prosesu bwyd." (Cyfranogwr 05, mentor SALSA).

"Mae bron wedyn yn dod yn safon y diwydiant, os nad yw gyda chi, ni allwch fasnachu." (Cyfranogwr 45, cyfarwyddwr becws BBaCh heb FSS).

"O'n safbwynt brand, mae gennym yn ein 'Gofynion ar gyfer Masnach' bod cael ardystiad BRC ar gyfer yr holl fwyd yn lefel mynediad technegol ar gyfer cyflenwi" (Cyfranogwr 66 Cynrychiolydd Manwerthu)

4.1.2 Diogelwch Cynnyrch

Sicrhau diogelwch cynnyrch (yn benodol, sicrhau diwydrwydd dyladwy) oedd yr ail yrrwr pwysig ar gyfer FDMPBs i gael cydymffurfiaeth â'r FSS.

"Yr un cyfreithiol allweddol, wrth gwrs yw y bydd hyn yn creu cynllun amddiffyn diwydrwydd dyladwy effeithiol i bobl pe bai fyth angen iddynt alw arno." (Cyfranogwr 02 Archwilydd/mentor SALSA).

“Gwyddoch fod y cynnyrch a werthir yn ddiogel.” (Cyfranogwr 35, cyd-berchennog busnes micro sy’n cynhyrchu eitemau becws, heb FSS).

“Gyda diwydrwydd dyladwy yn ei le, os aiff rhywbeth o’i le mae gan y cwmnïau y prosesau a’r systemau ar waith i gwblhau tynnu’n ôl neu alw’n ôl – i gynhyrchu cynnyrch cyson, diogel, cyfreithlon, o ansawdd.” (Cyfranogwr 68, cynrychiolydd manwerthu).

4.2 Manteision i Gydymffurfiaeth â’r FSS

Nodwyd tri ffactor yn ystod yr ymchwili fel manteision ar gyfer FDMPBs er mwyn cael/cynnal cydymffurfiaeth gan gynnwys diwylliant, twf busnes a diwydrwydd dyladwy (gan gynnwys amddiffyn brand, a diogelwch y gadwyn gyflenwi).

4.2.1 Diwylliant

Mae’r ymchwili yn nodi bod diwylliant cwmni yn gwella pan fydd FDMPB yn cydymffurfio â’r FSS. Mae staff sydd wedi’u hyfforddi’n briodol o fudd cadarn i berfformiad FDMPB drwy gryfhau’r sefydliad.

“Yn caniatáu i staff adeiladu a chaffael swyddi sefydledig uwch” (Rhanddeiliad Gogledd)

“Gall Diogelwch bwyd yn y lle cyntaf gael ei weld fel dim ond rhywbeth sy’n eiddo/y mae’n rhaid i’r tîm technegol ei gyflawni - ond pan fydd cwmni yn cychwyn ar brosiect i gael ardystiad, rwy’n credu bod yr ymwybyddiaeth o ddiogelwch bwyd (pan gaiff ei wneud yn iawn yn y busnes) yn dod yn llawer mwy na dim ond cyfrifoldeb technegol. Credaf y gall yr ymwybyddiaeth hon fod o wir fudd i’r busnes cyfan.” (Manwerthwr)

4.2.2 Twf Busnes

Roedd twf a llwyddiant busnes yn fudd mawr a nodwyd gan lawer o FDMPBs. Nododd yr ymchwili y gallai cydymffurfio â’r FSSs hwyluso masnach trwy agor cyfleoedd i gyflenwi marchnadoedd newydd. Teimlai cyfranogwyr hefyd bod enw da a phroffil y busnes wedi’i wella drwy gael cydymffurfiaeth â’r FSS.

Amlygodd y trafodaethau fod gwella sgiliau staff, mwy o hyder, gwella morâl a sicrwydd swydd yn gallu arwain at gadw gweithwyr lleol; gweithlu llawn cymelliant a thwf busnes. Awgrymwyd y gallai cydymffurfiaeth â’r FSS, gadw busnes, ac felly sicrhau swyddi, sy’n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig.

“Diogelu swyddi yn ogystal, ag ar gyfer yr amgylchedd leol a’r ardaloedd lleol” (Heb FSS, De)

“Rydych chi’n cynnal y safonau uchel hynny, fel bod pobl yn cadw eu swyddi, nid yw’r ffatri’n cau” (FDMPBs Heb ardystiad)

“... bydd y system diogelwch bwyd yn gwella proffidioldeb y busnes.” (Archwilydd a Mentor SALSA)

“mae twf posibl, gallwch dyfu eich busnes os oes gennych y pethau hyn, mae’n debyg y byddwch yn fwy tebygol o dyfu a denu mwy o gwsmeriaid ac felly sicrhau’r swyddi a chynyddu cyfoeth lleol o ganlyniad.” (FDMPBs Heb ardystiad)

4.2.3 Diwydrwydd dyladwy, amddiffyn brand a diogelwch y gadwyn gyflenwi

Mae cydymffurfiaeth â’r FSS yn sicrhau bod systemau ar waith i gynnal olrhain cynnyrch llawn, sy’n ofyniad cyfreithiol ac yn cefnogi’r gadwyn cyflenwi bwyd wrth ddarparu tryloywder a diogelwch bwyd. Esboniodd FDMPBs bod gofynion FSSs wedi helpu gwella cadernid eu gallu i olrhain a’r FSMS yn ogystal ag amddiffyn y gadwyn defnyddwyr a chyflenwi. Nododd cyfranogwyr ‘atebolrwydd’ fel budd mawr i ennill a chynnal FSS, gan ychwanegu bod y ddogfennaeth FSMS yn darparu’r strwythur ar gyfer eu hamddiffyniad diwydrwydd dyladwy. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar hygyrdd FDMPB gyda chwsmeriaid, y gadwyn gyflenwi a rhanddeiliaid. Nododd cyfranogwyr bod ‘hyder i gyflenwyr’ yn fudd mawr cydymffurfiaeth â’r FSSs. Nodwyd hefyd, fel budd, gwell ansawdd cynnyrch.

“Mae’n amddiffyn y gadwyn gyflenwi. Rwy’n golygu dim ond oherwydd ein bod i gyd yn rhedeg busnesau iach da, dwi’n mynd yn ôl at y sgandal cig ceffyl, eich bod yn gwybod os nad yw rhywun yn y gadwyn gyflenwi yn ... Mae’n debyg os oes gan fanwerthwr hyder ac nid dim ond y person y maent

“O ran atebolrwydd, mae'n wych cael cofnodion, cael SALSA, cael cofnodion ar gyfer popeth, felly os aiff rhywbeth o'i le, gallwn droi at y cwsmer a dweud bod problem gyda'r bwyd, gallwn ddweud nad oedd mewn gwirionedd yn ymnwued â ni, ni allai fod oherwydd roedd gyda ni'r holl weithdrefnau hyn ar waith sy'n dweud, na, ni allai fod wedi bod yn ni. Dyna yrrwr arall, os ydych yn wneuthurwr mawr sy'n cyflenwi, yna nid oes gennych achos cyfreithiol ar eich dwylo” (FDMPB De Cymru gyda'r FSS


“Mae cael ardystiad yn erbyn cynllun diogelwch bwyd yn dangos bod cyflenwyr wedi bodloni gofynion sylfaenol y cynllun, sy’n caniatáu i’n brand ganolbwyntio ar agweddau a all ddarparu mantais gystadleuol, yn hytrach na gorfod gwneud archwiliadau sy’n canolbwyntio ar yr hyn y byddai ein brand yn ystyried i fod yn ‘ofynion sylfaenol i fodloni diogelwch bwyd.” (Cynrychiolydd manwerthu)

Nododd cyfranogwyr bod yna wahaniaeth rhwng y rhwystrau a wynebir i gyflawni cydymffurfiaeth a'r rhwystrau a wynebir i gynnal cydymffurfiaeth â'r FSSs. Fel y trafodwyd gan reolwr technegol cigydd o faint canolig gyda SALSA sy'n gweithio tuag at BRC, gall y rhwystrau i gyflawni a chynnal cydymffurfiaeth FSS amrywio:

"Mae yna rwystrau i gyflawni achrediad ac mae rhwystrau i'w gynnal. I'w gyflawni mae gyda chi'r gost sefydlu cychwynnol o ran adnoddau, costau dynol ac ariannol. Ar gyfer ei gynnal, ... gallaf roi'r gweithdrefnau yn eu lle a'u hyfforddi i'w gweithredu, ond oherwydd nad ydym yn llinell cynhyrchu, ... mae'n ddau beth ar wahân." (Cyfranogwr 44).

Fel y dangosir yn Ffigwr 7, roedd y geiriau a ddefnyddir amlaf mewn perthynas â'r rhwystrau yn cynnwys 'amser,' 'pobl', 'cost', 'rheoli', a 'technegol'. Grwpiodd dadansoddiad pellach o'r trawsgrifiadau grŵp ffocws y rhwystrau allweddol a drafodwyd yn ôl:

- Amser, cost ac adnoddau;
- Gwybodaeth a sgiliau; a
- Cyfathrebu a mynediad i wybodaeth



Ffigurwr 7 Cwmwl geiriau sy'n dangos amllder geiriau a ddefnyddiwyd yn y grwpiau ffocws wrth drafod rhwystrau i sicrhau a chynnal FSSs

4.1.1 Amser, cost ac adnoddau

Nododd FDMPBs o bob maint, y rhai gyda chydymffurfiaeth â'r FSS a'r rhai heb gydymffurfiaeth â'r FSS 'amser' fel rhwystr i gydymffurfio a chynnal FSS. Dogfennaeth megis dylunio, gweithredu, gwirio ac adolygu FSMS fel 'cymryd llawer o amser'.

Awgrymodd grwpiau ffocws y gall hyd arolygiadau neu archwiliadau yn aml fod yn hir a gall fod yn broblem i fusnesau micro a bach i'w gymhwyso, ac efallai na fydd yn hyblyg i'r patrwm gwaith neu gynhyrchu'r FDMPB.

Dywedodd y cyfranogwyr pe bai ganddynt rai neu fwy o aelodau staff technegol byddai'n haws i reoli'r amser a ganiateir ar gyfer archwiliadau ac i ennill achrediad. Gall gweithgareddau technegol megis cwblhau dogfennau diogelwch bwyd, archwiliadau GMP a gwiriadau dyddiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r FSSs arafu neu stopio cynhyrchu a all yn ei dro achosi gwrthdaro o fewn sefydliad. Nododd cyfranogwyr hefyd nad yw achrediad neu ardystiad yn addas ar gyfer FDMPBs micro-bach lle mae'r safonau yn disgwyl 'archwiliadau mewnol annibynnol' er enghraifft. Mae canfyddiadau'n dangos yr angen am reoli amser a staff technegol cymwys, gallai defnydd o gyn-archwiliadau alluogi FDMPBs i 'reoli'r' archwiliad.

Roedd arian yn benderfynol o fod yn rhwystr sylweddol i gyflawni a chynnal cydymffurfiaeth â'r FSS, yn enwedig ar gyfer FDMPBs bach/micro. Mae'r pryderon a amlygwyd yn ymwneud â chost dylunio, gweithredu (newidiadau i strwythur, cyfarpar, ac adnoddau allanol ar gyfer gwybodaeth a chymorth technegol), cynnal a chadw a mecanweithiau cymorth fel recriwtio, hyfforddiant ac addysg. Nododd y cyfranogwyr bod angen buddsoddiad sylweddol mewn pobl, prosesau, cynnyrch, cyfarpar a'r amgylchedd gweithgynhyrchu er mwyn cyflawni a chynnal cydymffurfiaeth â'r FSSs.

"Rwy'n credu mai'r gost yn amlwg yw'r rhwystr mwyaf. Er mwyn cyflawni rhai achrediaid, mae angen i fusnesau gael gofynion busnes penodol nad yw maint eu busnes yn caniatáu iddynt eu cael. Yr enghraifft amlwg yw'r safon BRC ar gyfer ffatri risg uchel. Yn yr enghraifft hon, os nad oes gennych lif aer cadarnhaol neu synhwyrdd metel (y ddau ohonynt yn fuddsoddiadau drud iawn!), ni allwch gael eich achrediad BRC." (Cyfranogwr 66, Cynrychiolydd manwerthu).

"Ie, oherwydd mae'n cymryd amser i baratoi ar gyfer archwiliad." (Cyfranogwr 13, FDMPB gyda'r FSS).

"Gallaf ei roi i lawr i ddau beth sylfaenol, amser ac arian (nifer o gyfranogwyr yn cytuno). Mae rhedeg y busnes yn cymryd llawer o'm hamser, ac aiff yr amser sy'n weddill tuag at roi ymdrech i mewn i'm achrediad, ac oherwydd hynny, yr amser a'r gost, ni allaf fforddio cael rhywun technegol i mewn, felly mae ar fy ysgwyddau i." (Cyfranogwr 43, FDMPB heb FSS).

"Y broblem yw'r arian a'r adnoddau, ar gyfer y bobl sydd yn ei wneud. I gwmnïau llai hefyd, y gost gwirioneddol o gael yr archwiliad, ond ar gyfer y bechgyn mawr dyma'r adnodd gwirioneddol, pobl i gyflenwi'r safon." (Cyfranogwr 01, Archwilydd SALSA).

"Mae gyda ni'n aml yr angen i un neu ddau o bobl allweddol fynd ar gwrs ond rydych eu hangen ar lawr y ffatri fel na allwch fforddio'u rhyddhau." (FDMPB De Cymru heb FSS).

Mae costau hyfforddiant ac addysg hefyd yn bryder i FDMPBs mwy o faint, mae'r gost o ryddhau grwpiau o staff ar gyfer gweithgareddau allanol yn tynnu costau hyfforddi a cholli staff o'r gweithle.

Argymhelliad: gallai mwy o ystyriaeth i faint y busnes a nifer yr aelodau staff sy'n ymwneud â gweithredu'r system gael ei ystyried gan y perchennog cynllun neu ddarparwr gwasanaeth.

Argymhelliad: mae angen mwy o fynediad at gymorth ariannol i alluogi cwmpasu costau hyfforddi.

Roedd sylwadau ynghylch dogfennau diogelwch bwyd yn cynnwys y toreth, y defnydd diangen a phriodoldeb y gwaith papur. Teimlai rhai cyfranogwyr, mewn safleoedd cynhyrchu llai, nad oedd perthnasedd rhai dogfennau wedi cael eu hystyried gan y perchnogion cynllun. Yn aml, mae FDMPBs yn cynhyrchu'r un dogfennau mewn mwy nag un ffurf i gwrdd â chynlluniau lluosog. O ganlyniad, mae busnesau yn cyflogi pobl ychwanegol i gadw i fyny gyda rhwymedigaethau gwaith papur y cynllun. Argymhellodd cyfranogwyr bod ystyriaeth arbennig yn cael ei rhoi i fusnesau micro, er enghraifft, pan fo

angen archwiliad annibynnol, gan rywun diduedd i'r gweithgaredd sy'n cael ei harchwilio h.y. mewn adolygiad systemau mewnol.

Mewn safleoedd gweithgynhyrchu hŷn neu ffatrioedd heb-bwrpas a adeiladwyd, gall cydymffurfiaeth cynllun ysgogi gwneuthuriad, offer a'r broses newid. Gall hyn yn ei dro sbarduno buddsoddiad ariannol ar gyfer y busnes na all ei fforddio. Gall hyn, gyflwyno rhwystr i gydymffurfiaeth â'r FSS yn arbennig ar gyfer FDMPBs llai nad oes ganddynt efallai yr arian i ddatblygu eu ffatri, a gall hyn arwain at golli busnes.

“Credaf nad ydym ymhell i ffwrdd gyda hynny, cyn belled ag y mae gwaith papur yn y cwestiwn, yr adeiladau a phopeth ac yn ariannol y gwaith sydd angen i ni ei wneud sy'n eithaf mawr. Gwariant cyfalaf.” (Cyfranogwr 33, FDMPB Gogledd Cymru heb FSS).

“Newidiadau gwneuthuriad i'r cyfleuster.” (Cyfranogwr 17, cyfarwyddwr technegol FDMPB gyda'r FSS).

Argymhelliad: Cymorth ariannol ar gyfer gwariant cyfalaf megis adeiladu ac offer mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r FSS.

4.1.2 Gwybodaeth a sgiliau

Nododd nifer o FDMPBs nad oedd modd iddynt recriwtio staff medrus sydd â phrofiad perthnasol. Ni does gan ymgeiswyr posibl yn aml y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol yn y sector ac mae hyn yn rhwystr i'r busnes sy'n arwain at gostau uwch mewn hyfforddiant, addysg a datblygiad gweithwyr newydd. Mae gweithwyr yn y sector yn derbyn tâl isel ac nid yw'r diwydiant yn denu'r calibr o staff sy'n ofynnol gan yr FDMPB. Amlygwyd recriwtio'r 'person cywir yn y swydd gywir' gan yr FDMPB fel bod yn rhwystr i dwf busnes ac yn feirniadol o ran cynnal cydymffurfiaeth â'r FSSs. Mae angen cefnogaeth ar lawer o fusnesau micro a BBaChau i nodi'r priodoleddau a'r cymwysterau personol allweddol sydd eu hangen gan weithwyr newydd posibl er mwyn recriwtio'r ymgeisydd gorau posibl a fydd yn ychwanegu gwerth at y busnes.

“Nid oes gennym reolwr technegol. Ac felly i gael BRC, credaf y byddai angen rheolwr technegol arnom, felly mae cryn dipyn o orbenion yn syth sy'n rhaid i chi ei wneud, oni bai y gallem ddod o hyd i ffordd arall drwy ddarparu'r adnoddau ar gyfer y math hwnnw o gymorth technegol, gan fod gorbenion o ddeugain mil o bunnoedd yn ychwanegol i gwmni bach yn gost fawr iawn.” (Cyfranogwr 37, rheolwr gweithrediadau FDMPBs heb FSS).

“Defnyddiwyd mewn gwirionedd dîm hela pennau i'n galluogi i ddod o hyd i'r bobl iawn, a oedd yn golygu eu bod yn mynd drwy'r holl CVs, felly gwelwyd tri yn unig ar ddiwedd y cyfweiliad, ac ni weithiodd drwy ei wneud yn y ffordd honno felly fe benderfynon ni ei wneud ein hunain, gan hysbysebu ein hunain. Gwelwyd yr holl CVs, efallai ein bod wedi rhoi CVs ar y rhestr fer na fyddai timau hela pennau wedi eu rhoi. Mae gwneud hyn ein hunain wedi bod yn llwyddiannus iawn, yn hytrach na mynd trwy a thalu cymaint o ffioedd uchel, i gwmnïau ddod o hyd i'r bobl iawn ac nid yw hynny wedi gweithio. Rydym wedi ei wneud ein hunain ac mae wedi bod yn llwyddiannus iawn.” (Cyfranogwr 45, cyfarwyddwr FDMPB heb FSS).

Gwnaed sylwadau hefyd gan gyfranogwyr mewn nifer o'r grwpiau ffocws ar y prinder o staff technegol cymwys yn y diwydiant a diffyg arbenigedd technegol sy'n hanfodol i bob busnes sy'n dyheu i a chynnal cydymffurfiaeth â'r FSSs a sut y dylai delwedd y diwydiant bwyd fod yn fwy dymunol i'r rhai sy'n gadael yr ysgol.

“Mae gan y diwydiant bwyd ar y cyfan brinder staff technegol cymwys, mae prinder cyffredinol.” (Cyfranogwr 02, Archwilydd/mentor SALSA).

Mae gyda ni ddigon o bobl yn dod trwy'r math cywir o gyrsiau i gymryd y math cywir o swyddi er mwyn eu galluogi mewn gwirionedd i roi'r cynlluniau hyn yn eu lle, ac maent yn bodoli.” (Cyfranogwr 05, Archwilydd/mentor SALSA).

Trafodwyd yn ogystal agweddau ac ymrwymiad uwch reolwyr i fod yn rhwystr i gefnogi a sicrhau cydymffurfiaeth â'r FSS a'r effaith y gall ymrwymiad rheoli ei gael ar ddiwylliant. Mae staff technegol yn sylweddoli, heb ymrwymiad y rheolwyr i'r cynllun, nid ydynt yn cael cymorth gan adrannau perthnasol eraill fel cyllid neu gynhyrchu. Mae gan yr FDMPBs hynny lle mae ymrwymiad uwch reolwyr yn amlwg dîm cryfach gyda mwy o ymrwymiad a

hyder. Bydd addysg, hyfforddiant a chyfathrebu effeithiol yn effeithio'n uniongyrchol ar ddiwylliant sefydliad. Felly, er mwyn ysgogi gwelliant parhaus a chydymffurfiaeth â'r FSS mae angen i bob FMPBD weithredu strategaethau arweinyddiaeth, cyfathrebu, addysg a hyfforddiant clir.

"Ymrwymiad rheolwyr yw'r un mawr arall, a bod y rheolwyr wedi ymrwymo i fuddsoddi'r amser, wedi ymrwymo yn y bôn i fodloni gofynion y cwsmer." (Cyfranogwr 04, Archwilydd/mentor SALSA).

"O'm profiadau, dyma'r 'diwylliant diogelwch bwyd' amlochrog. Credaf bod angen i'r tîm rheoli ddeall eich bod yn gweithio gyda'ch gilydd fel un endid, felly mae angen i chi allu cyfathrebu o'r gwaelod i'r top." (Cyfranogwr 36, FDMPB De Cymru heb FSS).

"Hyd yn oed os ydynt yn deall y safon ei hun, ni allant gael mynediad rhwydd i arweiniad ar sut i gydymffurfio â hi, os nad ydynt yn gwybod sut i'w rhoi ar waith yn eu busnes eu hun." (Cyfranogwr 59, rhanddeiliad).

"Mae staff yn dweud wrthym 'Pam ddylem ni wneud hyn?'" (FDMPB De Cymru heb FSS).

Argymhelliaid: Creu hyfforddiant sefydlu bwyd ar gyfer gweithwyr newydd o gefndiroedd nad ydynt yn rhai bwyd i gael gwybodaeth dechnegol benodol a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant bwyd.

4.1.3 Cyfathrebu a mynediad at wybodaeth FSS

Nododd cyfranogwyr eu bod yn meddwl bod gormod o'r FSSs. Mae'r FDMPB yn ei chael hi'n anodd gwybod pa FSS i'w ddewis a gweithio tuag ato oherwydd y diffyg gwybodaeth o ran FSSs a natur weladwy gwybodaeth cynllun. Yn aml, mae cwsmeriaid yn ei gwneud yn ofynnol i'r FDMPBs gwrdd â mwy nag un cynllun sydd yn ei dro yn cymhlethu rhwymedigaethau'r FDMPB'S i gydymffurfio. Amlygwyd y gall safonau FSS amrywio ac efallai y bydd angen dogfennau gwahanol fel tystiolaeth ar gyfer yr un weithred neu weithgaredd.

Byddai'n well gan gyfranogwyr i FSSs gael eu cyfuno, fel bod FSMS a gynllunir ac a weithredir yn bodloni gofynion pob perchennog cynllun.

Dangosodd trafodaethau grŵp ffocws y gallai dewis FSS addas fod yn rhwystr fel y dangosir mewn trafodaeth ddethol rhwng dau randdeiliaid mewn grŵp ffocws yng ngogledd Cymru. Gall hyn awgrymu bod angen mwy o gyfathrebu â'r FDMPBs ynghylch yr FSSs sydd ar gael a'u haddasrwydd:

"Y ffaith bod safonau lluosog allan yna, a bob amser un nad yw'n cael ei gydnabod ac mae cwsmeriaid gwahanol eisiau safonau gwahanol." (Cyfranogwr 59).

"Mae cymaint o wahanol achrediaid, nad ydynt yn gwybod amdanynt i gyd." (Cyfranogwr 64).

"Felly efallai mai un o'r rhwystrau yw gwybod pa safon sy'n briodol ar gyfer eich busnes." (Cyfranogwr 59).

Argymhelliaid: Ystyriwch botensial cyfuno'r FSSs a nifer yr archwiliadau er mwyn atal dyblygu gweithgareddau a lleihau costau a baich ar yr FDMPBs.

Roedd cam-gyfathrebu ynghylch yr angen am FSSs yn fater a godwyd ynghylch FDMPBs yn cael eu hannog i sicrhau FSS:

"Rwy'n credu bod yna ddryswch yn ogystal weithiau o lefel uwch, mae prynwyr yn dweud 'mae angen i chi gael SALSA, mae angen i chi gael BRC', ar gyfer busnesau nad yw'n briodol, ac mewn gwirionedd eu dealltwriaeth o'r hyn yw achrediad diogelwch bwyd mewn gwirionedd neu gynlluniau ardystio sy'n briodol ar gyfer y math hwnnw o fusnes ac felly mae hynny'n yrrwr, bydda nhw y prynwyr yn dweud wrthyn nhw, y busnes, i gael pa bynnag gymeradwyaeth, mae'r dryswch hwn yn cael ei fwydo gan y lefel honno, ac unwaith eto yn mynd yn uniongyrchol i'r prynwyr, ac nid ydyn nhw ychwaith yn sicr ble i fynd, felly mae'n fath o ddryswch cyffredinol, mae angen eglurder i ddweud pa un sy'n addas ar gyfer pa fath o fusnes rwy'n credu." (Cyfranogwr 61, grŵp rhanddeiliaid Gogledd Cymru).

"Rwy'n credu weithiau bod prynwr yn rhoi pwysau diangen ar gyflenwyr. Os gallwn gael prynwr a chaffael i gael gwell dealltwriaeth o'r safonau yna byddant yn rhoi llai o faich ar y cyflenwyr." (Cyfranogwr 49, grŵp rhanddeiliaid Gogledd Cymru).

Trafododd cyd-berchennog FDMPB, a ddechreuodd yn wreiddiol fel stondin marchnad, y diffyg ymwybyddiaeth ynghylch FSSs a nododd swyddog Safonau Masnach yr angen am gyfeirio gwybodaeth:

“Sylwyd nad oedd llawer o stondinau marchnad yn gwybod am SALSA a BRC. Ond gall gymryd dwy neu dair blynedd i chi wybod bod yna lefel arall. Pe byddem wedi gwybod am SALSA byddem wedi ceisio ei gael ddwy flynedd yn ôl” (Cyfranogwr 40, FDMPB De Cymru heb FSS).

“Mae angen cyfeirio busnesau i ofyn beth yw'r cam nesaf. Ar gyfer busnesau llai, maent mor brysur yn gwneud yr hyn y maent yn ei wneud na allant weld beth i'w wneud nesaf.” (Cyfranogwr 48, Swyddog Safonau Masnach).

Argymhellid: Mae angen mwy o gyfathrebu i'r FDMPBs ynghylch argaeledd FSS a'r manteision posibl gan ddeiliaid cynllun

5. Mecanweithiau cymorth ar gyfer FDMPBs i alluogi cydymffurfiaeth â'r FSSs

Hysbysodd cwblhau'r grwpiau ffocws gynllunio a datblygu holiadur ar-lein hunan-gwblhau. Dosbarthwyd yr holiadur i'r FDMPBs a rhanddeiliaid i gael y canfyddiadau ac agweddau o fecanweithiau cymorth posibl. Dadansoddwyd canfyddiadau'r cyfnodau ymchwil gan y tîm ymchwil i alluogi gwneud awgrymiadau o fecanweithiau cymorth.

Mae argymhellion yn seiliedig ar syniadau, canfyddiadau a barn yr ymatebwyr (gan gynnwys FDMPBs, rhanddeiliaid, archwilwyr SALSA a mentoriaid a chynrychiolwyr manwerthu). Cefnogir yr holl argymhellion gan ddyfarniad proffesiynol a phrofiad diwydiant y tîm ymchwil.

Yn ystod y grwpiau ffocws sefydlwyd bod gofynion cymorth yn amrywio rhwng FDMPBs a FSSs. Trafod hefyd mathau gwahanol o gefnogaeth sy'n ofynnol rhwng FDMPBs yn awyddus i weithredu neu gynnal FSS:


“Mae'r gefnogaeth yn dibynnu ar ba gynllun y maent yn mynd amdano yn dydi, mae'r cyfan yn dibynnu ar hynny.” (Cyfranogwr 08, archwilydd/mentor SALSA).

Mae'r mecanweithiau cymorth a argymhellir yn ymwneud â

- Gwybodaeth, sgiliau a datblygiad; a
- Gwybodaeth a chyfathrebu; a
- Cymorth ariannol.


5.1 Defnyddioldeb canfyddedig mecanweithiau cymorth a awgrymir

Penderfynwyd ar ddefnyddioldeb posibl mecanweithiau i gefnogi FDMPBs yng Nghymru i sicrhau a chynnal cydymffurfiaeth â'r FSS. Er na chanfuwyd bod unrhyw fecanweithiau a awgrymwyd i'w hystyried yn hynod ddiwerth, canfuwyd mai'r mecanweithiau lleiaf defnyddiol oedd; Gwell ymwybyddiaeth o'r FSSs i ddefnyddwyr. Fel y nodwyd yn Ffigwr 8, credir mai'r mecanweithiau mwyaf defnyddiol oedd ariannu i gael cyngor a hyfforddiant, cyn-archwiliadau, cymorth ar y safle a chymorth dogfennau.



Ffigur 8 Defnyddioldeb canfyddedig mecanweithiau cymorth a awgrymir (n=29)

O ganlyniad, fel y dangosir yn Ffigur 9, dech yr ymchwil i'r casgliad mai'r mecanweithiau cymorth y credir eu bod mwyaf buddiol i FDMPBs yng Nghymru ac a ystyrir yn angenrheidiol i weithredu a chynnal FSSs yw ariannu i gael cyngor a hyfforddiant (68%), cymorth ar gyfer gweithredu'r ddogfennaeth diogelwch bwyd (64%), cymorth ar y safle (50%) a chyn-archwiliadau (46%).



Ffigur 9 Mecanweithiau cymorth y credir eu bod fwyaf buddiol (n=28)

Amlygodd y canfyddiadau yr ystyrir mai gwell ymwbyddiaeth defnyddwyr (7%), cymorth ar-lein (11%) a gwell cysondeb archwilydd (25%) oedd y mecanweithiau cymorth lleiaf buddiol.

5.2 Datblygu gwybodaeth a sgiliau

Nododd yr ymchwil wybodaeth a sgiliau fel rhwystr i gydymffurfiaeth â'r FSS, o ganlyniad, archwiliwyd mecanweithiau cymorth yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant i sicrhau a chynnal achrediad FSS. Dynodwyd anghenion addysg a hyfforddiant o fewn pob lefel o fusnes bwyd a diod, ac ar draws yr holl adrannau (yn cynnwys technegol, caffael, cynnal a chadw ac ati). Mae mecanweithiau cymorth a nodwyd yn cynnwys addysg, hyfforddiant, cymorth dogfennaeth, mentora, trosglwyddo gwybodaeth, rhwydweithio a chyn-archwiliadau (Ffigur 10).



Ffigwr 10 Mecanweithiau cymorth a nodwyd i oresgyn rhwystrau gwybodaeth a sgiliau ar gyfer cydymffurfiaeth â'r FSS

5.2.1 Addysg

Dangosodd y grwpiau ffocws y diffyg graddedigion bwyd fel rhwystrau posibl ar gyfer cydymffurfiaeth â'r FSS oherwydd y diffyg pobl cymwys.

“Hyrwyddo Gwyddoniaeth a Thechnoleg Bwyd fel cwrs gradd gwerth chweil gyda llawer o gyfleoedd gyrfa.” (Ymatebydd SCQ)

“Mae angen ymdrech ar y cyd i gael plant ar lefel ysgol i ddeall pa yrfaoedd sydd ar gael oherwydd mae dirnadaeth bod y diwydiant bwyd yn ymwneud â gweithio mewn ceginau.” (Cyfranogwr 49, rhanddeiliad).

Er mwyn sicrhau derbyniad cymwysterau sy'n gysylltiedig â bwyd yng Nghymru yn y dyfodol, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod cyrsiau addysg uwch ac addysg bellach yn parhau i fod yn ddymunol i unigolion sy'n dewis astudio'r cymhwyster hwn. Bydd mecanweithiau cymorth a gyflwynwyd ar y cam hwn, yn sicrhau bod gan unigolion sy'n ymuno â'r diwydiant gymwysterau a gwybodaeth addas i gyflawni rôl eu swydd a gwneud penderfyniadau cymwys mewn perthynas â diogelwch bwyd. Drwy gynyddu nifer y graddedigion bwyd, bydd rhwystrau a nodwyd yn yr ymchwiliad (gan gynnwys bylchau gwybodaeth, ansawdd y staff a diffyg arbenigedd technegol) yn cael sylw.

Argymhelliad: Ymgych i yrru ymwybyddiaeth o fewn ysgolion uwchradd o gymwysterau Addysg Bellach ac Addysg Uwch sy'n gysylltiedig â bwyd a dewisiadau gyrfa yn y diwydiant bwyd. Mae angen ymchwilio i ddulliau gwella poblogrwydd a delwedd y diwydiant bwyd.

Argymhelliad: Archwilio'r posibilrwydd o gefnogaeth ariannol (megis bwrsariaethau, ysgoloriaethau a hepgor ffioedd) i alluogi myfyrwyr i gwblhau cymwysterau addysg uwch neu addysg bellach sy'n gysylltiedig â bwyd. Byddai hyn yn cynnwys nodi penderfyniadau dewis gradd a chymharu cyfraddau nad ydynt yn parhau gyda myfyrwyr nad ydynt yn derbyn cymorth ariannol.

5.2.2 Hyfforddiant

Nododd yr ymchwil 'hyfforddiant' fel rhwystr i fusnesau bwyd a diod gyflawni a chynnal achrediad.

Mynegwyd agweddau cadarnhaol gyda 90% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai "Cyllid ar gyfer hyfforddiant ac addysg yn arwain at weithlu mwy galluog", 97% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y gall "Hyfforddiant staff wella ymgysylltiad gweithwyr wrth weithio tuag at gynllun diogelwch bwyd" a 93% yn anghytuno "Na fyddai hyfforddiant a chynngor yn gwella gallu'r busnes i gydymffurfio â chynllun diogelwch bwyd". Er y byddai'r union hyfforddiant ar gyfer FDMPBs 'cychwynnol' a 'sefydledig' yn amrywio.

Trafodwyd yr effaith gadarnhaol ar hyfforddiant ac addysg mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r FSS, gan fod hyn yn cynnwys sgiliau cynyddol, morâl y staff ac ymwybyddiaeth o'r hyn y disgwylir i'r staff wneud drwy roi dealltwriaeth o bwrpas FSSs. Fodd bynnag, roedd y gost a'r amser sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r hyfforddiant ac addysg yn bryder ac yn rhwystr i gael cydymffurfiaeth â'r FSS.

O ganlyniad, awgrymwyd bod mecanweithiau arloesol i gefnogi hyfforddiant ac addysg yn fuddiol, ac awgrymwyd atebion ymarferol i alluogi hyfforddiant staff (megis hyfforddiant ar y safle, hyfforddiant pwrpasol) rhwng FDMPBs lleol lluosog. Yn wir roedd yr angen am gyrsiau hyblyg lleol yn bryder penodol ar gyfer y rhai yng Ngogledd Cymru, byddai awgrymiadau o'r fath hefyd yn galluogi hyfforddiant i fod yn 'lleol' i'r FDMPBs.

Mae mecanweithiau cymorth a nodwyd ar gyfer FDMPBs o Gymru yn cynnwys:

- Hyfforddiant achrededig (er enghraifft Diogelwch Bwyd a HACCP)
- Hyfforddiant pwrpasol (er enghraifft, yn gysylltiedig â phwnc, safle-benodol a/neu gategori cynnyrch penodol)
- Hyfforddiant amlieithog, hyblyg, lleol ar y safle
- Hyfforddiant a ddarperir ar gyfer pob lefel, busnes-i-fusnes (sylfaenol i uwch)
- Cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant a hyfforddiant gloywi

Mae'n rhaid i ganlyniadau dysgu hyfforddiant gael eu cydnabod gan randdeiliaid o fewn y diwydiant (gan gynnwys y Cynllun Perchnogion, manwerthwyr, cyfanwerthu a'r sector cyhoeddus).

Mae staff a hyfforddwyd yn fwy tebygol o wneud penderfyniadau cymwys mewn perthynas â diogelwch bwyd, cyfreithlondeb ac ansawdd. O ganlyniad, bydd hyfforddiant staff effeithiol yn lleihau'r risg cyffredinol o ddigwyddiad diogelwch bwyd o fewn y diwydiant. Dylid rhoi ystyriaeth i sut y gall FDMPBs o Gymru gael mynediad i hyfforddiant staff effeithiol, perthnasol a fforddiadwy.

Bydd effeithiolrwydd y mecanwaith cefnogi hyn yn cael ei ddyrchafu os oes gan FDMPBs fynediad i unigolion cymwys a phrofiadol sydd â'r sgiliau i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant pwrpasol.

Gallai darparwyr hyfforddiant sefydledig ddarparu mecanwaith cymorth hyfforddiant pwrpasol sy'n addas ar gyfer FDMPBs o Gymru. Er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant yn parhau i fod yn fforddiadwy, rhaid ystyried y cymorth ariannol sydd ar gael i FDMPBs o Gymru i dalu am hyfforddiant diogelwch bwyd achrededig a phwrpasol perthnasol.

“Mae hyfforddiant yn un allweddol. Nid yw pobl yn ymwybodol o'r hyn y disgwylir iddynt ei wneud.” (Cyfranogwr 13).

“Hyfforddiant cost rhesymol ...” (Cyfranogwr 15) “... nid yn gost ataliol.” (Cyfranogwr 17).

“Rwy'n credu y byddai o fudd i gwmnïau i rwydweithio a threfnu diwrnodau hyfforddiant ar y safle. Hyd yn oed os ydych yn defnyddio'r FIC, os mai dim ond hanner dwsin o bobl fydd gyda chi, yna beth am ei agor i fusnesau eraill, yn enwedig busnesau bach sydd ond wedi cael 1 neu 2 aelod o staff yn mynd ar gwrs.”

“Os ydych i lawr y ffordd mae'n teimlo'n fwy hyblyg ac nid ydych yn colli rhywun o'r swyddfa am bum niwrnod yn gwneud y cwrs hwnnw, ond yn dod yn ôl ac yn gweithio tra byddant yn dysgu ... Felly efallai y byddai mynediad lleol i gyrsiau mwy hyblyg yng Ngogledd Cymru yn goresgyn y rhwystrau hynny na all busnesau bach fforddio i'w staff fod i ffwrdd am gyfnod hir o amser.” (Cyfranogwr 65).

Argymhelliad: Ystyried cynllun a datblygu hyfforddiant pwrpasol pwnc-benodol ar y safle, ac archwilio'r posibilrwydd o 'hyfforddi lleol, hyblyg ar y cyd rhwng FDMPBs lleol lluosog; ac asesu'r effaith ar ganlyniadau ymddygiad staff a chanlyniadau archwilio.

Argymhelliad: Creu hyfforddiant sefydlu bwyd ar gyfer gweithwyr newydd o gefndiroedd nad ydynt yn rhai bwyd i gael gwybodaeth dechnegol benodol a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant bwyd.

5.2.3 Cymorth dogfennaeth

Credai mwyafrif yr ymatebwyr (72%) y byddai cymorth gyda gweithrediad dogfennaeth diogelwch bwyd yn hynod o ddefnyddiol (Ffigwr 8). Fel y nodwyd yn Ffigwr 9, cefnogaeth dogfennaeth diogelwch bwyd oedd yn ail i gymorth ariannu, 64% yn credu ei fod yn un o'r dulliau mwyaf buddiol ar gyfer FDMPBs yng Nghymru.

Nododd y mwyafrif agweddau cadarnhaol tuag at gymorth dogfennaeth gydag 86% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod “cefnogaeth gyda chynnal a chadw dogfennaeth diogelwch bwyd yn hanfodol ar gyfer cynnal cynllun diogelwch bwyd” a 79% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf na fyddai “cefnogaeth gyda gweithredu dogfennaeth diogelwch bwyd yn cyflymu'r broses o gyflawni cynllun diogelwch bwyd”.

Nododd datganiadau a wnaed mewn perthynas â mecanwaith i gefnogi gweithredu'r ddogfennaeth diogelwch bwyd pa mor bwysig yw dogfennaeth o'r fath, fodd bynnag, cyfeiriwyd at yr adnoddau a'r ymrwymiad sydd ei angen i weithredu ddogfennaeth briodol, a thrafodwyd y budd o atal gwastraff amser gyda gweithredu'r ddogfennaeth:

“Mae dogfennaeth dda yn allweddol i achredu ac mae cael help i'w osod i fyny ac yna ei ddiweddarau yn hanfodol.”

“Mae cymorth gyda'r gweithredu cychwynnol yn amhrisiadwy, mae'n sicrhau bod cwmni dibrofiad ar y llwybr cywir ac felly yn llai tebygol o wastraffu amser ac adnoddau.”

Byddai angen gwahanol lefelau o gefnogaeth i fusnesau sy'n dymuno gweithredu a chynnal FSS. Trafodwyd yn weithredol bod cynnal a chadw'r gwaith papur sy'n ofynnol ar gyfer Safon Fyd-eang BRC ar gyfer Diogelwch Bwyd yn gofyn am aelod o staff amser llawn. Gyda rhai o'r FDMPBs bach yn dyheu i gael cydymffurfiaeth, nid oeddent yn gallu gweld y manteision neu'r angen am waith papur manwl fel y cyfryw, yn syml roeddent am gynhyrchu a gwerthu eu cynnyrch. Mae hyn yn amlygu'r angen am addysg a hyfforddiant yn y gofynion a gweithredu FSS gydag FDMPBs yng Nghymru.

“Efallai y bydd mwy o waith papur a fyddai'n ofynnol gan fusnes bach, ac os ydych yn 'fand-un-dyn' yna mae'n bosibl ei bod yn anodd ymrwymo llawer o amser i'ch achrediad yn ogystal â gwneud eich gwaith bob dydd sy'n cynhyrchu'ch cynhyrchion.” (Cyfranogwr 60, Rhanddeiliad, grŵp ffocws Gogledd Cymru).

“Mae llawer o waith papur a llawer o amser yn cael ei dreulio yn gwneud gwaith papur ac rydych yn meddwl 'pam ydw i'n llenwi hyn?'. Cyfranogwr 45, Cyfarwyddwr FDMPB De Cymru heb FSS).

“Rwy'n credu bod angen i'ch trosiant fod ar lefel benodol cyn y gallwch mewn gwirionedd edrych ar wneud hyn, oherwydd mae angen yn sicr berson amser llawn arnoch i ofalu am y gwaith papur o'm profiad blaenorol.” (Cyfranogwr 32 FDMPB Gogledd Cymru heb FSS).

Argymhelliad: Hyfforddiant penodol wedi'i dargedu ar weithgaredd ar gyfer datblygu, gweithredu a chynnal a chadw dogfennaeth FSMS.

5.2.4 Mentora

Fel y nodwyd yn Ffigwr 8, mae mwyafrif yr ymatebwyr (72%) yn credu y byddai cymorth ar y safle (e.e. hyfforddi a mentora) yn fecanwaith cymorth hynod ddefnyddiol ar gyfer FDMPBs. Credai hanner (50%) mai cefnogaeth ar y safle fyddai'r mecanwaith mwyaf buddiol (Ffigwr 9). Mynegwyd agweddau cadarnhaol tuag at gymorth o'r fath ar y safle, gyda 100% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai “cefnogaeth ar y safle yn galluogi mynd i'r afael â phroblemau safle-penodol” a 93% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y “byddai hyfforddi a mentora ar y safle yn wastraff amser ar gyfer busnesau.” Dangosodd datganiadau mewn perthynas â chymorth ar y safle y byddai atebion priodol i broblemau yn cael eu nodi a theimlai llawer bod cyswllt wyneb-yn-wyneb a chanllawiau yn hanfodol:

“Helpu i adnabod problemau a materion ac atebion priodol.”

“Mae cael cyngor ar sut i gydymffurfio yn fwy gwerthfawr na dim ond cael gwybod nad ydych yn ei wneud.”

“Bydd wyneb-yn-wyneb, yn ymgorffori'r wybodaeth.”

“Nid yw'r rhan fwyaf o gwmnïau bach yn gwybod ble i ddechrau ac ni fyddant yn ei flaenoriaethu felly byddai hyn yn cyfeirio'r cwmni ac yn blaenoriaethu'r gwaith pe bai rhaglen ymweld a gytunwyd yn ei lle.”

“Rwy'n credu y dylai pob cwmni, unwaith y byddant wedi'u sefydlu gael mentor, a chan rywun sy'n gwybod. Nid rhywun sy'n gwneud gwaith papur yn y swyddfa, ond rhywun fel yna sydd erioed wedi rhedeg busnes, llywodraeth Cymru neu bwy bynnag sy'n ei drefnu, os gallwch gael rhywun i'ch helpu chi, ac maent i gyd yn neis iawn, ond ar ddiwedd y dydd nid ydynt erioed wedi bod ar y llawr gwaelod yn rhedeg y busnes, ac rydych angen hyder llwyr ynddynt.” (Cyfranogwr 35)


Bydd mentora cymwysedig ar y safle yn galluogi busnesau i wneud penderfyniadau cymwys sy'n ymwneud â systemau rheoli, dogfennaeth, meysydd pwnc a chynnyrch penodol, a fydd yn ei dro yn lleihau'r siawns o ddigwyddiad diogelwch bwyd difrifol ac, yn bwysicach cynyddu hyder yn y gadwyn gyflenwi yng Nghymru gan brynwyr a chynrychiolwyr technegol y manwerthwyr, cyfanwerthwyr ac NPS.

Er mwyn sicrhau bod mentora ar y safle yn parhau'n hygyrch a fforddiadwy, dylid ystyried y cymorth ariannol sydd ar gael i FDMPBs o Gymru. Argymhellir bod y mecanwaith cymorth yn cael ei ddarparu gan arbenigwyr diogelwch bwyd cydnabyddedig. Byddai mentora ar y safle yn ffurfio mecanwaith cyflenwi sylfaenol ar gyfer rhaglenni trosglwyddo gwybodaeth yn y dyfodol. Awgrymir hefyd mai mentora ar y safle yw'r mecanwaith cyflenwi a ffafrir ar gyfer ymyriadau technegol 'ymateb cyflym'.

Argymhelliad: I sicrhau bod mentora ar y safle yn parhau'n hygyrch ac yn fforddiadwy. Rhaid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod mentora ar y safle'n cael ei gyflenwi gan fentoriaid cymwys a phrofiadol sy'n gallu tynnu ar eu profiad ymarferol o fewn y diwydiant i ddarparu atebion priodol.

5.2.5 Trosglwyddo gwybodaeth

Nodwyd cynlluniau trosglwyddo gwybodaeth (megis KITE) fel mecanwaith cymorth posibl ar gyfer FDMPBs. Mae'r mecanwaith yn mynd i'r afael â'r angen hanfodol ar gyfer FDMPBs i gwrdd â gofynion technegol y sector a hwyluso trosglwyddo ac ymgorffori gwybodaeth gwyddor/technoleg bwyd drwy'r arbenigedd o FIW. Mae'r model KITE yn seiliedig ar bartneriaeth gydweithredol rhwng partner diwydiannol (SME), partner sylfaen-gwybodaeth (FIW) a 'chyswllt' (graddedig), fel y nodir yn Ffigwr 11.



Ffigwr 11 Mekanwaith Trosglwyddo Gwybodaeth 'KITE'

Ar ben hynny, trafodaeth mewn perthynas â rhwydweithio a mentora 'grŵp cyfoedion' lle mae busnesau yn dysgu oddi wrth brofiadau busnesau eraill.

"Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ei golli nawr ei fod wedi mynd. Roedd KITE yn ffordd o rannu heb orfod mynd i safleoedd eraill i ddysgu pethau gan nad ydym yn mynd i safleoedd ein gilydd i'w dysgu, felly mae'n eithaf anodd i gael arferion gorau" (Cyfranogwr 15).

"Rydym wedi cael nifer o fyfyrwyr KITE, ni allem fod wedi gwneud hynny. Mae'n helpu graddedigion i gael swyddi ac yr ydym yn dal i fod ar delerau da, ac rydym yn ffonio ein gilydd. Mae'r rhwydwaith KITE/KTP yn cael ei ffurfio, BRC technegol. Mae graddedigion, yn darparu cysylltiadau rhwng cwmnïau" (Cyfranogwr 10).

Argymhelliaid: Darpariaeth rhaglenni trosglwyddo gwybodaeth ôl-raddedig (er enghraifft KITE) a reolir gan Arloesi Bwyd Cymru (FIW) i alluogi pontio i raddedigion a dysgu parhaus o addysg i mewn i ddiwydiant.

5.2.6 Rhwydweithio

Trafodwyd y defnydd posibl o rwydweithio cyfoedion fel mecanwaith cymorth ar gyfer goresgyn problemau sy'n gysylltiedig â'r FSS. Awgrymwyd y byddai cyfle lle gall FDMPBs rhanbarthol siarad â'i gilydd a gwrandao ar brofiadau pobl eraill yn fanteisiol. Nodwyd y byddai rhwydweithio yn creu cysylltiadau newydd er mwyn cael dealltwriaeth o sut aethpwyd i'r afael â thasgau mewn perthynas â'r FSSs ac yn ogystal gefnogi amcanion busnes ehangach eraill.

"Yng Ngogledd Cymru rydym yn eithaf ynysig, yn ogystal, yr ydym yn wledig iawn, mae'r rhan fwyaf ohonom wedi teithio dros awr i gyrraedd yma heddiw, ond trwy fod yma yn awr, mae cyfle da i ddod o hyd i rywun." (Cyfranogwr 35)


"Mae dod â chwmnïau profiadol a dibrofiad gyda'i gilydd yn fantais enfawr. Gall hyn fod ar-lein yn ogystal ag efallai digwyddiadau rhwydwaith chwarterol."

"Ardderchog ar gyfer busnesau llai nad oes ganddynt dîm/cronfa fawr o brofiad i rannu problem a thrafod materion cyfredol gyda chyfoedion."

"Mae rhwydweithio gyda chynrychiolwyr busnes sydd wedi cyflawni neu'n gweithio tuag at achrediad yn ddefnyddiol i dynnu ar brofiad a dysgu a rennir."

Credai'r mwyafrif (93%) y byddai cyfleoedd rhwydweithio yn ddefnyddiol (Ffigwr 8). Dim ond 48% oedd yn credu ei fod yn hynod ddefnyddiol, yn wir canfu llai na thraean (29%) y cyfleoedd i rwydweithio, megis gyda FDMPBs eraill a deiliaid cynllun mewn canolfannau bwyd i fod yn un o'r mecanweithiau cymorth mwyaf buddiol. Roedd gan y mwyafrif agweddau cadarnhaol tuag at gyfleoedd rhwydweithio, gyda 86% yn cytuno bod "Cyfleoedd rhwydweithio gyda busnesau bwyd a diod eraill yn rhoi cipolwg i fynd i'r afael â phroblemau cynllun diogelwch bwyd" ac 89% yn anghytuno "Nad yw cyfleoedd rhwydweithio yn fuddiol ar gyfer busnesau bwyd a diod."

Byddai mecanwaith cymorth addas yn sicrhau pob FDMPBs o Gymru yn cael mynediad i, ac yn derbyn cyfathrebu rheolaidd am gyfleoedd rhwydweithio perthnasol, sydd ar y gweill. Awgrymir y dylai'r mecanwaith cymorth hwn gael ei hwyluso gan Grŵp Cydymffurfiaeth Technegol (TCG). Gallai'r TCG gael eu cynrychioli gan randdeiliaid dylanwadol o fewn y diwydiant bwyd a diod, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, manwerthwyr, Perchnogion Cynllun ac FDMPBs. Mae Ffigwr 12 yn dangos aelodau awgrymedig o'r TCG.



Ffigwr 12 Aelodau TCG

Byddai digwyddiadau rhwydwaith yn cynnig cyfle delfrydol i aelodau TCG ledaenu gwybodaeth pwnc-benodol i rwydwaith TCG. Mae'r rhwydwaith TCG hefyd yn darparu mecanwaith delfrydol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i weithwyr proffesiynol y diwydiant.

Fel argymhelliad, gallai FIW sefydlu'r TCG. Byddai'r TCG yn gyfrifol am bennu rhaglen o ddigwyddiadau rhwydwaith. Byddai'r FIW yn cyfleu'r digwyddiadau i'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn cynnal digwyddiadau rhanbarthol ar draws De, Canolbarth a Gogledd Cymru.

Argymhelliad: Annog Arloesi Bwyd Cymru i ddatblygu Grŵp Cydymffurfiaeth Technegol (TCG) rhanbarthol Cymru Gyfan yn cynnwys rhanddeiliaid, manwerthwyr, Perchnogion Cynllun ac FDMPBs i ddarparu strwythur cymorth rhwydweithio i alluogi FDMPBs o Gymru i gyfathrebu, cael mynediad at a derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r FSS gan gynnwys diweddariadau cyfreithiol, ymarfer gorau o'r diwydiant a newidiadau sydd ar ddod i ofynion y cynllun a chynnal gweithgareddau rhwydweithio rhanbarthol.

Argymhelliad: Ehangu ar y cyfleoedd rhwydweithio a ddarperir gan y TCG drwy greu system fentora categori cynnyrch penodol, lle bo FDMPBs profiadol sydd gyda FSSs yn mentora FDMPBs sy'n anelu at sicrhau FSS.

5.2.7 Cyn-archwiliadau

Credai tri chwarter yr ymatebwyr (76%) y byddai cyn-archwiliadau yn fecanwaith hynod o ddefnyddiol i gefnogi FDMPBs yng Nghymru (Ffigwr 8). Er mai dim ond 46% oedd yn credu mai dyma'r gefnogaeth fwyaf buddiol (Ffigwr 9). Fodd bynnag, roedd agweddau tuag at fecanweithiau cymorth fwyaf cadarnhaol o ran cyn-archwiliadau, lle roedd 69% yn cytuno'n gryf y byddai cyn-archwiliad yn cynorthwyo FDMPBs i wybod beth i'w ddisgwyl yn ystod archwiliad ac 83% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y byddai "cyn-archwiliad yn rhy llafurus o ran amser ar gyfer busnesau":

"Mae hwn yn arf defnyddiol wrth baratoi ar gyfer y prif archwiliad – ar gyfer ffocws, dull 'pâr ffres o lygaid' ac ar gyfer hyfforddi staff ar y safle."

"Mae cyn-archwiliadau yn hanfodol trwy rhywun sy'n gyfarwydd â gofynion safonol i sefydlu dadansoddiad bwlch effeithiol er mwyn sicrhau bod cynllun gweithredu ar gael i gefnogi gweithredu ac i sicrhau cydymffurfiaeth."

"Arbed gwastraffu arian ar yr hyn a allai droi allan i fod yn archwiliad wedi methu."

"Gall gymryd ymaith ofn archwiliadau ffurfiol."

Nodwyd o brofiadau ymatebwr y gall archwiliadau fod yn amrywiol ac anghyson. Mae Ffigwr 8 yn dangos bod gwell cysondeb archwilydd yn cael ei weld fel defnyddiol dros ben gan 64% a dim ond 25% yn credu ei fod y mecanwaith mwyaf buddiol. Roedd y mwyafrif (93%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai "Graddnodi archwilydd yn sicrhau archwiliad teg a chyson" ac 83% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf na fyddai "Graddnodi archwilwyr (i sicrhau cysondeb) yn gwella'r profiad archwilio."

Awgrymwyd y byddai mecanweithiau mentora, cyn-archwilio a throsglwyddo gwybodaeth i gyd yn gweithio i wella'r profiad hwn:


"Nid yw lefelau archwiliadau yn gyson."

"Byddai cysondeb archwilydd o fewn ac ar draws cyrff achredu a chysondeb gydag archwiliadau diogelwch bwyd yr ALI yn darparu busnesau gyda chynghor sicr a hyder yn y system."

"Gwybod bod gan bob archwiliwr yr un lefel o gymhwyster addas ar gyfer y diwydiant y mae'n ei archwilio. Er enghraifft, peidiwch ag anfon archwilydd diwydiant cig i archwilio nwyddau amgylchol."

Mae perchnogion cynllun yn gyfrifol am sicrhau bod archwilwyr yn gredadwy ac yn gyson yn eu prosesau, ac y bydd profiad ac arbenigedd yr archwilydd yn sicrhau cysondeb archwiliadau. Fodd bynnag, dylid ystyried pob newidyn posibl all ddylanwadu ar brofiad archwilio, fel y dangosir yn

Ffigwr 13. Awgrymir nad yw busnesau bach a chanolig FDMPBs efallai yn ymwybodol o sut i "reoli" archwiliad a byddai ymglyfarwyddo â phrotocol archwilio drwy'r cyn-archwiliad yn mynd i'r afael â hyn.



Ffigwr 13 Ffactorau sy'n dylanwadu ar brofiad archwiliad

Argymhelliaid: Ystyried datblygu hyfforddiant ar gyfer y sawl sy'n cael ei archwilio er mwyn sicrhau bod FDMPBs yn 'barod ar gyfer archwiliad' drwy gyfrwng cyn-archwiliad i alluogi profiad archwilio cadarnhaol. Byddai hyfforddiant yn sicrhau bod y sawl sy'n cael ei archwilio yn gwybod 'sut i reoli archwiliad' a sut i ymdrin â gweithdrefn gwyno.

5.3 Gwybodaeth a chyfathrebu

Nododd y grwpiau ffocws nad oedd rhai ymatebwyr o fewn y garfan ymchwil yn ymwybodol o sut neu ble i gael gwybodaeth allweddol yn ymwneud â gofynion y cynllun neu arfer gorau'r diwydiant. Nododd yr ymchwil desg bod rhai FSSs eisoes yn darparu i'w haelodau fynediad i lyfrgell gwybodaeth (gan gynnwys papurau gwyn, canllawiau dehongli, astudiaethau achos ac arferion gorau diwydiant).

5.3.1 Gwybodaeth ar-lein

Awgrym o fecanwaith cymorth annibynnol 'ar-lein', (trwy Lywodraeth Cymru). Codwyd canolfan wybodaeth a grwpiau fforwm trafod, lle y gall gwybodaeth cydymffurfiaeth â'r FSS gael eu postio. Er bod 'canolfan wybodaeth' wedi ei nodi, dylid rhoi ystyriaeth i gyfrinachedd FDMPB ac i ansawdd gwybodaeth a rennir o fewn y fforwm er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni arfer gorau'r diwydiant a gofynion cyfreithiol. Fodd bynnag, roedd hefyd yn amlwg o'r trafodaethau bod llawer o fforymau ar-lein yn hygyrch i FDMPB yng Nghymru ar hyn o bryd.

"A oes unrhyw alwad am hynny gan Lywodraeth Cymru i roi rhai pobl ar-lein i helpu gyda hyn?"
"Rwy'n credu bod y rhwydwaith cyflenwyr Tesco yn gwella o hyd ac o hyd. Rhywbeth ar hyd y llinellau hynny lle mae gennych grwpiau fforwm trafod."

"Hyd yn oed os oedd gennych fforymau ar-lein, mae cyrff proffesiynol yn tueddu i gael eu fforymau ar-lein eu hunain, HACCP ac ati, does dim byd newydd, mae pawb wedi cael rhywbeth mewn un ffordd neu'r llall, mae gyda chi ryw beth y gallai rhai ei ystyried yn anodd iawn a gallai eraill ei ystyried yn hawdd"

"Fel grŵp gorfodi mae gennym wefan o'r enw'r ganolfan wybodaeth lle gallwch ofyn cwestiynau os oes gennych broblem. Rwy'n ei defnyddio cryn dipyn ac os bydd gan rywun yn fy ardal gwestiwn byddaf yn eu cyfeirio at y ganolfan wybodaeth. Efallai nad oes amser ganddynt, ond trwy ofyn drwy'r ganolfan wybodaeth gallant ofyn y cwestiwn a mynd yn ôl wythnos yn ddiweddarach a gobeithio cael ateb. Mae llawer o orgyffwrdd."

Dynodwyd bod cymorth ar-lein (e.e. tiwtorialau, gweminarau, fforymau sy'n seiliedig ar broblem) yn cael ei weld fel un o'r mecanweithiau cymorth lleiaf defnyddiol, er i'r mwyafrif (93%) ddynodi y byddai'n ddefnyddiol (Ffigwr 8), dim ond 41% oedd yn credu y byddai cymorth ar-lein yn 'hynod ddefnyddiol' i FDMPBs yng Nghymru i sicrhau a chynnal FSSs, ar ben hynny dim ond 11% oedd yn credu ei fod yn un o'r mecanweithiau cymorth mwyaf buddiol.

O'r mecanweithiau cymorth a awgrymwyd, mynegwyd yr agweddau mwyaf niwtral tuag at gymorth ar-lein, gyda 38% ddim yn cytuno y gallai "Cymorth ar-lein ei gwneud yn haws i fusnesau bwyd a diod ddewis cynllun diogelwch bwyd priodol" a 31% ddim yn anghytuno na fyddai "Cymorth ar-lein yn eu helpu gyda mynd i'r afael ag anawsterau neu bryderon cynllun diogelwch bwyd."

Argymhelliad: mae angen i ymchwil archwilio pa fecanweithiau hyfforddiant ac addysg ar-lein sy'n bodoli ar hyn o bryd i gefnogi FDMPBs, a gwerthuso'r hygyrchedd, derbynoldeb, cywirdeb ac effaith posibl mecanweithiau o'r fath ar FDMPBs.

Argymhelliad: annog FIW i ddatblygu porth gwybodaeth a fyddai'n gweithredu fel canolfan wybodaeth ar gyfer FDMPBs o Gymru. Byddai arbenigwyr y diwydiant bwyd o fewn FIW yn gyfrifol am gynnal y llyfrgell dogfennau a lledaenu'r papurau gwyn perthnasol i fusnesau bwyd a diod. Efallai y bydd mynediad i adroddiadau a chanllawiau awdurdodol yn galluogi personél i wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ffeithiau ac arfer gorau.

5.3.2 Cyfathrebu perchennog cynllun

Trafodwyd darparu cymorth gan berchnogion cynllun mewn pump o'r naw sesiwn grŵp ffocws a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth hon. Nododd rhai trafodaethau awydd am gymorth a gwybodaeth gan berchnogion cynllun. Amlygwyd pryderon o ran cyfrinachedd, ofnodwyd gofyn am arweiniad a dehongliad gan berchnogion cynllun a darparwyd gwasanaethau gan y gellid canolbwyntio arnynt yn ystod archwiliad.

"Desg gymorth BRC, rydych am arweiniad neu ddehongliad ond rydych yn ofni amlygu hynny rhag ofn iddynt ganolbwyntio arno." (Cyfranogwr 13).

"Byddwn i'n dweud ei fod yn wrthdaro buddiannau, os wyf yn talu i rywun ddod i'm harchwilio ac ar ôl archwilio rhywun eu bod yn gwerthu gwasanaethau oddi ar gefn y ddiffyg cydymffurfio a ganfyddwyd yn ystod yr archwiliad, yr wyf yn bersonol yn credu y dylai'r corff wahanu eu rôl; y cymorth a'r cyngor y maent yn ei ddarparu o'r archwilio, rwy'n gweld y cynghori fel rôl wahanol. Ar gyfer tryloywder mae angen gwahanol rolau arnoch o fewn y sefydliad." (Cyfranogwr 65).

"Cynllun teyrngarwch, os yw'r archwiliad yn anodd, gallwch symud gyda'ch traed a mynd i rywle arall, ond os ydych wedi bod gyda'r un cynllun dywedwch am bum mlynedd, yna yn sicr rydych yn hapus gyda nhw, maen nhw'n hapus gyda chi, yna rhyw fath o gynllun teyrngarwch, rydych wedi bod yma ac wedi'ch hysbrydoli i wneud hynny, byddwch yn cael gostyngiad o 20%, neu 30%, y math yna o beth."


Amlygodd yr ymchwil desg nifer o wahaniaethau yn swm y wybodaeth y mae Perchnogion Cynllun yn ei ddarparu i'w haelodau. Mewn rhai achosion, mae gwybodaeth yn cael ei gyfyngu i aelodau yn unig ac mae maint y wybodaeth yn y parth cyhoeddus yn parhau i fod yn gyfyngedig. Argymhellir bod mwy o ymchwil yn cael ei gynnal gyda pherchnogion cynllun i archwilio argaeledd a thryloywder y wybodaeth a roddir i fusnesau cyn y gwneir unrhyw argymhellion pellach.

Amlygodd yr ymchwil hwn y gall profiadau ymatebwr o archwiliadau fod yn amrywiol ac anghyson, gan awgrymu'r angen am fecanweithiau i wella cysondeb. Mae'r tîm ymchwil yn

cydnabod bod systemau ar waith ar draws FSSs i sicrhau cysondeb archwilydd (gan gynnwys calibreiddio ac archwiliadau tystiolaethu rheolaidd).

Heb ymchwil a thrafodaeth bellach gyda Pherchnogion Cynllun, ni ellir awgrymu unrhyw fecanweithiau cymorth er mwyn gwella cysondeb archwilydd. Awgrymir, fodd bynnag, fod Pherchnogion Cynllun yn gwneud y telerau a'r amodau sy'n ymwneud â'r broses apelio a chwynion yn glir i aelodau os digwydd i FDMPBs benderfynu herio'r canfyddiadau a nodwyd yn ystod archwiliad.

Argymhelliad: Mae angen ymchwil pellach gyda pherchnogion cynllun ynghylch cysondeb archwilydd. Mae angen rhoi esboniad manwl o ofynion cymhwysedd gofynnol a osodir gan berchnogion cynllun ar gyfer arolygwyr/archwilwyr yn y parth cyhoeddus.



Ffigur 14 TCG yn darparu sianel rhwng Perchnogion Cynllun ac FDPBs o Gymru

Awgrymir y dylid darparu mynediad at ddogfennau allweddol i FDMPBs o Gymru sy'n hysbysu'r darlennydd yn gwyno am gynhyrchion, gwasanaethau a materion cymhleth sy'n wynebu busnesau yn y diwydiant bwyd a diod. Bydd adroddiadau a chanllawiau awdurdodol yn caniatáu personél i wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ffeithiau ac arfer gorau. Byddai mecanwaith cymorth addas yn sicrhau bod gan bob FDMPBs o Gymru fynediad at ddogfennau allweddol. Dylai'r mecanwaith gynnwys cyfathrebu clir i FDMPBs am ble a sut i gael gafael ar wybodaeth berthnasol. Dylai'r mecanwaith cymorth gymryd i ystyriaeth y gost ar gyfer FDMPBs o Gymru i gael mynediad i wybodaeth allweddol a rhoi ystyriaeth i ddarparu cymorth ariannol i FDMPBs yn y maes hwn.

Gallai'r mecanwaith cymorth hwn gael ei weithredu a'i gynnal gan arbenigwyr diogelwch bwyd.

5.3.3 Ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r FSSs

Seiliwyd rhai trafodaethau o amgylch yr angen am ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r FSSs i alluogi cydymffurfiaeth i gael ei ddefnyddio fel arf marchnata gyda mantais busnes, nid yw cynlluniau heblaw am red tractor a rhai organig yn wynebu defnyddwyr. Mae hwn yn faes i'w drafod a'i ymchwilio ymhellach.

"Dylai'r defnyddiwr wybod am hyn, fel y 'little red tractor', dyna sut yr wyf yn edrych arno. Felly nid wyf yn credu, pe baech yn mynd allan a gofyn i Joe Blogs ar y stryd na fyddent yn gwybod (gan gyfeirio at FSSs) beth ydyw." (Cyfranogwr 33, cyd-berchennog FDMPB heb FSS Gogledd Cymru).

Er bod 59% yn credu y byddai gwell ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r FSSs yn ddefnyddiol wrth gefnogi FDMPBs yng Nghymru i sicrhau a chynnal FSS, dim ond 28% oedd yn meddwl ei fod yn hynod ddefnyddiol a'r mecanwaith cymorth a ystyriwyd y lleiaf buddiol, gyda dim ond 7% yn ei ystyried fel un o'r mecanweithiau cymorth mwyaf buddiol. Ni wnaed unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r awgrym mecanwaith cymorth hwn, methodd 28% fynegi agwedd gadarnhaol tuag at "Byddai ymwybyddiaeth defnyddwyr o gynlluniau diogelwch bwyd o fudd masnachol." Pennwyd bod 14% yn cytuno y byddai "Mwy o ymwybyddiaeth defnyddwyr o gynlluniau diogelwch bwyd yn achosi ofn tuag at y diwydiant bwyd a diod."

Argymhelliad: Ystyried cynnal ymchwil defnyddwyr ac ymchwil perchennog cynllun i fanteision cynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r FSSs. Archwilio costau gwneud FSSs yn rhai sy'n wynebu defnyddwyr, a'r effaith bosibl ar ddefnyddwyr, canfyddiadau, ymddygiad a pharodrwydd i dalu am gynnyrch bwyd gyda'r FSSs a hysbysebir.

5.4 Cymorth ariannol

Credai'r holl ymatebwyr y byddai cymorth gydag ariannu yn ddefnyddiol (Ffigwr 8), gydag 86% yn credu ei fod yn hynod ddefnyddiol, mwy na dwy ran o dair (68%) hefyd yn credu ei fod yn un o'r rhai mwyaf buddiol o'r mecanweithiau cymorth a awgrymwyd.

Nodwyd o ymatebion yn ymwneud ag ariannu, ei bod yn arbennig o bwysig i FDMPBs llai allu ariannu arbenigedd a chefnogaeth dechnegol gymwys ac y byddai ariannu yn atal FDMPBs rhag cael eu rhwystro gan gostau cynlluniau.

"Mae cynlluniau'n ddrud yn enwedig ar gyfer busnesau micro, ac mae hyn yn atal llawer rhag ystyried y cynlluniau."

"Hanfodol i dwf y busnesau bach/canolig nad ydynt yn gallu cefnogi person technegol amser llawn yn fewnol."

"Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chynlluniau diogelwch bwyd ac ar gyfer cynnal cydymffurfiaeth 24/7, mae'n gofyn am weithlu hyfforddedig. Gall lefel yr hyfforddiant sy'n ofynnol fod yn rhy gostus i fusnesau bach."

Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu bod y gost gysylltiedig o weithredu a chynnal FSSs (gan gynnwys arbenigedd technegol, hyfforddiant, ffioedd achredu ac ati) yn uchel ac yn rheswm arwyddocaol pam nad yw FDMPBs yn cael eu hachredu. Dylai'r mecanwaith cymorth ystyried darparu cymorth ariannol FDMPBs o Gymru gyda'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu a chynnal achrediad.

Argymhelliad: Cymorth ariannol ar gyfer gwariant cyfalaf megis adeiladu ac offer mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r FSS.

Argymhelliad: mae angen mwy o wybodaeth cyfeirio ar gyfer FDMPBs i gael gafael ar gymorth ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd i alluogi talu am gostau hyfforddi.

6. Casgliad

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn nodi argaeledd eang o'r FSSs ar gyfer FDMPBs ledled Cymru a'r DU. Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn dangos yr amrywiad ar draws y gwahanol FSSs o ran cadernid, parchusrwydd, hygrededd, ymarferoldeb a derbyniad aelodaeth. Mae'r adolygiad yn amlygu bod FSSs yn esblygu ac yn datblygu'n barhaus. Mae hyn yn gyrru'r FDMPBs yng Nghymru i gynnal eu FSMS yn unol â datblygiadau cynllun gan alluogi busnesau i barhau i fanteisio ar gyfleoedd cyfredol a newydd yn y farchnad a sicrhau twf yn unol â Chynllun Gweithredu Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru.

Mae'r adolygiad hefyd yn awgrymu y byddai cynyddu nifer yr FDMPBs achrededig yn cyfrannu tuag at barhad cydymffurfiaeth cyfreithiol, diogelwch y gadwyn cyflenwi bwyd, a bydd yn helpu i ddiogelu'r brand a defnyddwyr fel ei gilydd.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn nodi bod tua 30% o FDMPBs yng Nghymru ag achrediad (Safon Fyd-eang BRC neu Safon SALSA) sy'n awgrymu bod cyfle ar gyfer twf pellach yn y gyfran o fusnesau bwyd a diod sy'n cyflawni cydymffurfiaeth â'r FSS cydnabyddedig. Mae'r adolygiad yn awgrymu y bydd hyn yn ei dro, yn cynyddu nifer y cyflenwyr o Gymru ar draws pob categori bwyd o fewn y sector bwyd a diod.

Trwy drionglant o ddulliau ymchwil, mae'r tîm ymchwil wedi sefydlu'r rhwystrau sy'n bodoli i FDMPBs yng Nghymru i sicrhau a chynnal cydymffurfiaeth â'r FSS. Casglwyd gwybodaeth gan nifer o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys y diwydiant FDMPBs (gyda a heb brofiad o achrediad), swyddogion gorfodi, perchnogion cynllun, archwilyr, cynrychiolwyr manwerthu, NPS, darparwyr gwasanaeth bwyd ac arbenigwyr yn y diwydiant bwyd.

Defnyddiwyd y wybodaeth hon i nodi cyfres o fecanweithiau cymorth allai gynorthwyo cwrdd â gofynion cynllun FDMPBs i gyflenwi manwerthwyr, y sector cyhoeddus a marchnadoedd eraill. Mae'r mecanweithiau cymorth cynnwys;

1. Datblygu Gwybodaeth a Sgiliau
 - a. Addysg
 - b. Hyfforddiant
 - c. Cymorth dogfennaeth
 - d. Mentora
 - e. Trosglwyddo gwybodaeth
 - f. Rhwydweithio
 - g. Cyn-archwiliadau
2. Gwybodaeth a chyfathrebu
 - a. Canolfan wybodaeth ar-lein
 - b. Cyfathrebu perchennog cynllun
 - c. Ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r FSS
3. Cymorth ariannol

Mae'r ymchwil yn amlygu bod nifer o fecanweithiau cymorth yn gydgysylltiedig. Mae Ffigwr 15, yn dangos y mecanweithiau cymorth a nodwyd yn yr ymchwil hwn er mwyn cynorthwyo FDMPBs.



Ffigwr 15 Llinell amser mecanwaith cymorth i gynorthwyo FDMPBs o Gymru i sicrhau a chynnal FSSs

(* TCG: Grŵp Cydymffurfiaeth Technegol, ** TCN: Rhwydwaith Cydymffurfiaeth Technegol)

Mae'r adroddiad yn amlygu bod angen datblygu metrigau priodol ar gyfer pob mecanwaith cymorth er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y mecanweithiau cymorth a weithredir.

Dylai'r argymhellion yn yr adroddiad hwn fod yn fodd i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi ac ymyriadau i annog a chefnogi gweithgynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru i ymchwilio a symud tuag at gyflawni statws achrediad FSS.

Yn y pen draw, bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cefnogi sicrhau diwydiant bwyd gwydn a chadarn yng Nghymru sydd yn gredadwy ac yn arwain y ffordd o ran diogelwch bwyd a chydymffurfiaeth â'r FSS.

7. Manteision ychwanegol yr ymchwil

Yn dilyn cwblhau'r prosiect Rhwystrau Achredu, nodwyd manteision ychwanegol i'r ymchwil:

1. Creodd y gweithdai (gan gynnwys y De a'r Gogledd) gyfle rhwydweithio delfrydol i FDMPBs Cymreig. Daeth dros 30 o fusnesau a rhanddeiliaid i bob digwyddiad (gan gynnwys perchnogion cynllun, yr awdurdod lleol, LIC a'r GCC). Darparodd lleoliad y gweithdy a'r amgylchedd gyfle i fusnesau lleol rwydweithio a chael trafodaeth agored. Gwelwyd rhwydweithio busnes-i-fusnes (B2B), dysgu cyfoedion a datrys problemau yn ystod ac yn enwedig ar ôl y grwpiau ffocws, gyda gwahanol fusnesau'n trefnu cyfarfodydd pellach ac ati. O'r gweithdai nododd FDMPBs awydd clir i ddigwyddiadau o'r fath ganiatáu ar gyfer lledaenu gwybodaeth a rhwydweithio B2B.
2. Bu i randdeiliaid a gymerodd ran yn y gweithdai elwa o'r mewnwelediad a gafwyd o gysylltiad uniongyrchol ag FDMPBs.
3. Cafodd y gweithdai eu strwythuro i gynnwys diweddariad cynllun ar gyfer Safonau Bwyd Byd-eang BRC a SALSA fel ei gilydd a ychwanegodd werth at y sesiynau ar gyfer y busnesau a oedd yn bresennol. Profodd y sesiynau hyn i fod yn llawn gwybodaeth ar gyfer busnesau wedi'u hachredu gyda'r FSSs a busnesau sydd am gael eu hachredu. Darparodd y sesiwn gyfle delfrydol i berchnogion cynllun rannu gyda busnesau fanteision yr FSSs. Darparodd y sesiwn diweddaru cynllun gyfle i fusnesau ofyn cwestiynau i berchnogion cynllun a chyfnewid manylion cyswllt.
4. Gwnaed yr holl randdeiliaid (cysylltwyd â >100 fel rhan o'r prosiect ymchwil) yn ymwybodol bod y prosiect wedi'i gomisiynu a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae cwblhau'r prosiect 'Rhwystrau Achredu' wedi codi proffil ymrwymiad Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru tuag at y sector bwyd a diod ac wedi codi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014 - 2020.
5. Trafodaethau ôl-brosiect rhwng FIC ac NPS. Cyfarfod wedi'i gynllunio 04/07/2016 i archwilio dull cydweithredol o reoli risg cyflenwr diogelwch bwyd.
6. Yn ystod cwrs yr ymchwil, nodwyd bod angen addasu'r dull ymchwil i gynnwys cynrychiolydd manwerthu. O ganlyniad, mae cynnwys y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda'r manwerthwyr wedi sicrhau caniatáu FIC i gasglu gwybodaeth ar hyd y gadwyn gyflenwi gyfan, a ychwanegodd ddyfnder at yr ymchwil.
7. Nid yn unig mae'r ymchwil wedi nodi'r rhwystrau i gydymffurfio â'r FSS, ond mae cwblhau'r prosiect ymchwil hefyd wedi gwneud argymhellion ar gyfer mecanweithiau cymorth a awgrymir i alluogi FDMPBs yng Nghymru i gael ac yn arbennig i gynnal cydymffurfiaeth â'r FSS.
8. Nododd yr ymchwil feysydd ymchwil yn y dyfodol ar gyfer Llywodraeth Cymru.
9. Mae papurau ymchwil academiaidd a chyflwyniadau cynhadledd byd-eang yn cael eu cynllunio ar gyfer 2017 i ledaenu canfyddiadau'r prosiect ymchwil 'Rhwystrau Achredu'.

BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES



www.gov.wales/foodanddrinkwales

bwyd-food@wales.gsi.gov.uk

 @FoodDrinkWales